CYNGOR SIR Y FFLINT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

# 2020/21

**A BLAENORIAETHAU 2021/22**











CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

# Cynnwys


Adran 1 — **Cyflwyniad** 04

Adran 2 — **Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr** 05

Adran 3 — **Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau?** 07

Adran 4 — **Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Rhai yr Ydym yn eu Helpu**

**NQS1:** Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.

**NQS2:** Gweithio gyda phobl a phartneriaid er mwyn gwarchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol pobl.

**NQS3:** Cymryd camau i warchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed. 19

**NQS4:** Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas. 22

**NQS5:** Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.

**NQS6:** Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael gwell llesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sydd yn bodloni eu hanghenion.

Adran 5 — **Sut Ydym yn Gwneud Beth Ydym yn Ei Wneud** 32

**a)** Ein Gweithlu a Sut Ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol 32

**b)** Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Ydym yn Cynllunio i'r Dyfodol 37

**c)** Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethiant ac Atebolrwydd

Adran 6 — **Mynediad i Fwy o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol** 40

Geirfa 41

Atodiad 1 — **Data Cyd-destunol a mesurau perfformiad cenedlaethol** 43



*Rwyd yn mor falch bod eu Cyngor wedi parhau i gadw ei enw da fel a'i le blaenllaw yn y sector gofal cymdeithasol.*

*Mae'n dweud cymaint am ymrwymiad ac ymroddiad ein timau mewnol, a'n darparwyr a gomisiynwyd a'n partneriaid, ein bod nid yn unig wedi dod drwy bandemig mor llethol, ond ein bod hefyd wedi mynd o nerth i nerth.*

*Mae ein cydweithwyr gofal cymdeithasol wedi bod yn arwyr lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a dylent gael ein parch mwyaf. Llygedyn o obaith yn dilyn y cyfnod tywyll yma yw y bydd gofal cymdeithasol, o'r diwedd, yn derbyn y gydnabyddiaeth genedlaethol, a'r cyllid, y mae'n ei haeddu.*

*Rydym yn parhau i arloesi - er enghraifft Micro-ofal a gwasanaethau cymorth i Blant sy'n Derbyn Gofal; buddsoddi - er enghraifft yn Hwb Cyfle a Chartref Gofal Preswyl Marleyfield; ac i arwain y ffordd - er enghraifft ym maes gofal maeth, y Canolbwynt Help Cynnar a chyfeillgarwch*

*Mae Sir y Fflint wedi ei hadeiladu ar werthoedd cymdeithasol a rennir. Mae ein gweithlu gofal cymdeithasol wedi disgleirio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi bod yno ac yn gofalu am y bobl fwyaf agored i niwed drwy gydol y cyfnod. Hon fydd y mlwyddyn olaf gyda Sir y Fflint a rwyf yn edrych yn ôl gyda balchder ar bopeth yr ydym wedi ei gyflawni gyda'n gilydd.*

*Rwyf yn dymuno'n dda i chi i'r dyfodol gan wybod y bydd Sir y Fflint yn parhau i arwain y ffordd i eraill.*

Colin Everett
Prif Weithredwr
Cyngor Sir y Fflint



# Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi ei baratoi o dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ac mae'r ddwy yn pennu gofyniad statudol i'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar swyddogaethau ei wasanaethau cymdeithasol.



Mae ffocws y ddeddfwriaeth yma ar lesiant, ac mae ein hadroddiad yn crynhoi y pethau allweddol yr ydym yn ei wneud yn Sir y Fflint i gefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed. Mae'n disgrifio ein heriau, yn rhoi darlun i'n rhanddeiliaid o sut yr ydym wedi perfformio a gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae rhanddeiliaid yn cynnwys y bobl sydd yn defnyddio ein gwasanaethau, ein staff, aelodau etholedig, y cyhoedd, ein partneriaid, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan sylfaenol o'r hyn yr ydym yn ei wneud, ac mae'n hysbysu datblygiad ein gwasanaethau a chynlluniau i'r dyfodol.

Yn yr adroddiad rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn erbyn blaenoriaethau gwella y llynedd ac yn nodi ein blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar lesiant ac yn gysylltiedig â'r chwe Safon Deilliannau Cenedlaethol, sef:

NQS 1 Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

NQS 2 Gweithio gyda phobl a phartneriaid er mwyn gwarchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol

NQS 3 Cymryd camau i warchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu

NQS 4 Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn

NQS 5 Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol

NQS 6 Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael gwell llesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sydd yn bodloni eu

Adran 2

# Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

Croeso i Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Pwrpas yr adroddiad hwn yw myfyrio ar sut y ydym wedi perfformio yn ystod 2020/21, ac amlygu ein blaenoriaethau a'n bwriadau ar gyfer 2021/22.

Nis oes amheuaeth bod COVID-19 wedi amharu ar ein cynlluniau ar gyfer eleni ac wedi effeithio'n sylweddol ar ein gwaith cynlluniedig. Byddwch yn gweld yn yr adroddiad bod rhai o'n blaenoriaethau gwaith wedi cario ymlaen ers y flwyddyn ddiwethaf. Ond, rydym wedi gallu bwrw ymlaen â nifer o bethau ochr yn ochr â'r ymateb i COVID-19.

I ategu geiriau ein Prif Weithredwr, i ddechrau mae'n rhaid i ni gydnabod dewrder, ymrwymiad a gwytnwch ein staff a'r rhai yn y sector annibynnol a phartneriaid, wrth iddynt barhau i wella iechyd a llesiant trigolion Sir y Fflint.

Ar 23 Mawrth 2021, bu i ni gynnal munud o dawelwch fel rhan o ddiwrnod o fyfyrio er mwyn nodi Blwyddyn ers cyfnod clo cyntaf y Deyrnas Unedig, pan gofiwyd am y rhai a fu farw yn ystod y pandemig. Roedd y pandemig, ac misoedd cyntaf 2021 yn arbennig, yn heriol,  bydd hynny yn sicr yn gadael ei ôl ar bawb a weithiodd i gefnogi unigolion a'r sector am nifer o flynyddoedd i ddod.




Wrth dracio COVID-19 yn lleol, ymddangosodd llifoedd gwaith newydd, yn cynnwys:

- Y dull cymunedol gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn darparu ymateb cydlynus i'r pandemig yn lleol.
- Sefydlu canolbwynt OGP gan NEWCES, oedd yn galluogi'r broses o ddosbarthu Offer Gwarchod Personol (OGP) i dros 80 o sefydliadau ledled Sir y Fflint.
- Gwaith partneriaeth rhwng staff Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion Iechyd Amgylcheddol o ran darparu cymorth i ddarparwyr gofal cymdeithasol yr effeithiwyd arnynt gan COVID-19.
- Y cymorth ariannol yr ydym wedi gallu ei hwyluso o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Creu cartref gofal dros dro, Tŷ Treffynnon, er mwyn darparu mwy o welyau.
- Cefnogi sector annibynnol i ddatblygu cyfleuster 'cam i lawr' dros dro, oedd yn galluogi pobl i symud allan o welyau ysbyty wrth iddynt wella. Erbyn hyn mae'r cartref hwn symud i fodel hirdymor o breswyl EMI.

Nid yw heriau COVID-19 wedi ein hatal rhag cyflawni ein blaenoriaethau a'n cynnydd gyda chymaint o 'fusnes fel arfer' â phosibl.

Bydd yr adroddiad yn rhoi mwy o fanylion, ond mae rhai o lwyddiannau ychwanegol y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Gweithredu Micro-ofal, gyda 12 Micro-ofalwr yn darparu gwasanaethau yn y sir.
- Datblygu mwy ar ein gweithgaredd er mwyn cefnogi pobl sydd yn byw â Dementia.
- Gwneud safiad i roi diwedd ar bob trais gan ddynion yn erbyn merched drwy gael Achrediad Rhuban Gwyn.
- Cydnabod ein Gwasanaethau Anabledd Dysgu yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru a rhestr fer ar gyfer Gwobrau APSE.
- Cyflogi dau o raddedigion, pobl ifanc ag Anableddau Dysgu o raglen Prosiect SEARCH, yn ein gwasanaethau ein hunain, gydag eraill yn dechrau mewn cyflogaeth gyflogedig.
- Gweithredu Model cymorth Gofal Maeth - 'Mockingbird'.
- Y cynnydd sydd wedi ei wneud gydag estyniadau yn Nhŷ Marleyfield.

Wrth i ni symud ymlaen, rydym yn gwybod y bydd COVID-19 yn parhau i effeithio ar ein cymuned a'n gwasanaethau yn 2021/22, ac un thema sydd yn rhedeg drwy'r adroddiad hwn yw ein hymateb parhaus, ac adfer gwasanaethau pan fo'n ddiogel gwneud hynny.

***Fel nodyn olaf gennyf i a'r Cynghorydd Jones, hoffem ddweud unwaith eto, fel bob amser, pa mor falch yr ydym o'n gweithlu pan fo pob un ohonom wedi wynebu heriau na welwyd eu tebyg, ac eto roeddem yn dal yn gallu parhau i gefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed. Mae hynny yn destament i waith caled ac ymroddiad ein gweithwyr gwych.***



**Neil Ayling**
Chief Officer
***Social Services***



**Councillor Christine Jones**
Cabinet Member for
***Social Services***

# THE ODE OF A KEY WORKER

We give you our hearts. Although they are broken, they are still beating

We give you our souls. Although they are lost, we are still breathing

We give you our light. Although they are dimming we are still shining.

We give you our sunshine. Although there is rain, there are still rainbows

We give you our smile. Although there is hurt, there is still laughter

We give you our calm. Although there's a storm there is still peace

We give you our hope. Although moments fade we still have faith.

We give you our hands. Although we are apart, we can still hold together.

*Gan Carol Morgan, tra'n gweithio fel Uwch Weithiwr Cymorth yng Ngofal Ychwanegol Llys Raddington, Y Fflint.*

Adran 3:

# Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau?

Mae sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed a'n bod ninnau yn dysgu ohonynt yn flaenoriaeth.




Mae swyddogion wedi cadw mewn cysylltiad cyson gyda'r darparwyr yr ydym yn gweithio gyda nhw, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth drwy ateb eu ymholiadau a gwrando ar adborth ynghylch effaith COVID-19 ar eu gwasanaethau a'r bobl sydd yn eu defnyddio.

Wrth symud ymlaen, byddir yn buddsoddi mewn adolygu ac ailddatblygu arolygon defnyddwyr a dulliau ymgysylltu gyda'r nod o'u gwneud yn fwy perthnasol a hygyrch, ac wedi eu targedu at feysydd gwasanaeth penodol.

Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu wedi hwyluso cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr gofal preswyl, gofal cartref a Byw â Chymorth. Er bod y cyfarfodydd hyn wedi cael eu cynnal cyn y pandemig, cynyddodd eu hamlder. Roedd y cymorth a'r rhwydweithio yn adnodd hanfodol i ddarparwyr. Hefyd, mynychwyd y cyfarfodydd gan gydweithwyr o'r Tîm Iechyd Amgylcheddol, Swyddogion Iechyd a Diogelwch a swyddogion BIPBC fel y gallai partneriaid roi cyngor a chymorth fan fo angen hynny.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd hyn, sefydlwyd cyfeiriad e-bost penodol ble gallai darparwyr ofyn cwestiynau a gwneud ymholiadau ynghylch COVID-19 a gellid ymateb iddynt yn amserol.

Cynhaliwyd ‘boreau coffi rhithiol’ er mwyn cefnogi rheolwyr gwasanaethau sydd efallai wedi bod yn gweithio ar eu pennau eu hunain yn ystod y cyfnod hwn.  Mae’r digwyddiad hwn yn fwy ymlaciol, gyda dim agenda, ond cyfle i rwydweithio ac efallai derbyn ychydig o gymorth cymheiriaid.

Mae’r tîm hefyd wedi cael cyswllt ffôn dyddiol â darparwyr er mwyn casglu data, holi ynghylch cyflenwadau OGP, trafod unrhyw faterion sy’n codi, neu dim ond bod yno i wrando a rhoi cymorth yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae Uwch Reolwyr a Swyddogion Iechyd Amgylcheddol ar gael yn ddyddiol, yn cynnwys ar benwythnosau, er mwyn darparu cymorth a chysylltu â chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

***“Diolch i chi a’ch tîm am y gefnogaeth barhaus yn ystod y deuddeg mis diwethaf, rydych wedi bod yn rhyfeddol”. (Darparwr y sector annibynnol)***

***“Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonoch am y cymorth, arweiniad a’r gwaith cydlynol yr ydym wedi ei rannu yn ystod y 18 mis diwethaf. Bu’n fraint a phleser gweithio gyda phobl ryfeddol ac Awdurdod Lleol mor arbennig, arloesol a blaengar”. (Darparwr y sector annibynnol)***

Mae Lleisiau Ifanc yn Siarad Allan (LlIA) yn grŵp o bobl ifanc sydd yn cael gofal neu sydd yn gadael gofal, rhwng 13 a 18 oed. Mae’r grŵp wedi parhau i gyfarfod ar-lein er mwyn cynrychioli lleisiau plant sydd yn derbyn gofal yn Sir y Fflint. Mae gweithdai a thrafodaethau wedi cael eu cynnal sydd yn ymdrin ag iechyd a pherthnasoedd, a modelau maethu.

Mae cynrychiolwyr o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru wedi mynychu eu cyfarfodydd hefyd er mwyn derbyn safbwyntiau’r grŵp. Ym mis Mai cysylltodd aelod o Senedd Ieuenctid Cymru ag ILIA ynghylch sut yr hoffent i Sir y Fflint a Chymru edrych ar ôl y cyfnod clo. Rhoddwyd adborth ar hynny i Hannah Blythyn (AC) i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae aelodau’r grŵp yn rheolaidd yn mynychu Fforwm Gwasanaethau Plant, sydd yn cynnwys Aelodau Etholedig, Uwch Reolwyr a chynrychiolwyr Gwasanaethau Plant ac Addysg. Yn y cyfarfodydd hyn maent yn rhannu eu safbwyntiau ar destunau sydd wedi cynnwys Tai, addysg a chyngor ar iechyd rhywiol i bobl ifanc. Bu i’r grŵp fynychu’r Fforwm Gwasanaethau Plant cyntaf ym mis Medi gan siarad am sut mae’r pandemig wedi effeithio arnynt. Roedd rhai o’u sylwadau yn cynnwys:

***“Mae wedi effeithio arna i yn bennaf mewn ffordd dda oherwydd mae wedi rhoi amser i mi weithio arnaf i fy hun a fy agwedd tuag at bethau megis ysgol, ffrindiau a theulu. Mae wedi gwneud i mi werthfawrogi nhw a gwerthfawrogi pethau megis mynd allan. Mae’n amlwg wedi bod yn anodd ond mae’r pethau da wedi bod yn fwy na’r pethau drwg.”***


Mae’r grŵp hefyd wedi cyfweld ag ymgeiswyr ar gyfer staff newydd y prosiect Therapi Amlsystematig a swydd Rheolwr Tîm Sefydlogrwydd a Llys.

Gweithiodd pobl sy’n byw â dementia a’u gofalwyr gyda’r Cyngor a NEWCIS ar ddatblygu map rhyngweithiol a chanllawiau defnyddwyr fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu mwy ar ymwybyddiaeth dementia a chymorth ledled y sir.

Mae’r map yn dangos lleoliadau Cymunedau Dementia Gyfeillgar, caffis cof a sefydliadau a gwasanaethau sydd yn rhan o’r rhaglen busnes dementia gyfeillgar gaiff ei rhedeg drwy NEWCIS.

Bydd defnyddwyr yn gallu chwilio drwy’r map er mwyn canfod lleoliadau dementia gyfeillgar yn ru hardal, ynghyd â arosfeydd bysiau a chyfleusterau cymunedol eraill allai eu helpu i gynllunio eu taith.

Mae’r map a’r canllawiau defnyddwyr wedi cael ei ddatblygu o ganlyniad i syniad gan




swyddogion yn yr adran TG, ar ôl mynychu sesiwn ymwybyddiaeth a gynhaliwyd gan hyrwyddwr Cyfeillion Dementia ar gyfer gweithwyr y Cyngor Sir.

Dywedodd Chris Roberts, person sydd yn byw â dementia:

***“Mae’r prosiect hwn yn arloesol iawn a bydd mor fuddiol i bobl wybod ble a pha sefydliadau fydd yn eu gwneud i deimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu deall, yn arbennig mewn cyfnod pan mae pob un ohonom yn teimlo’n unig ac ynysig iawn.”***

Mae’r gwaith hwn yn adeiladu ar ddatblygu Gwefannau Dementia, sydd yn dod ag amrywiaeth o wybodaeth at ei gilydd mewn un lle, gan weithredu fel math o gyfeirlyfr o wasanaethau cymorth.

Mae Gofalwyr Ifanc wedi bod yn ymwneud hefyd â datblygu manyleb gwasanaeth newydd er mwyn helpu’r broses o gomisiynu gwasanaeth newydd ar gyfer Gofalwyr Ifanc. Roedd yr ymgysylltu yn anffurfiol, drwy gyfryngau cymdeithasol a cyfarfodydd. Roedd pedwar gofalwr ifanc hefyd yn rhan o’r broses gaffael.

Roedd y gofalwyr ifanc yn cyfweld â’r holl sefydliadau oedd yn ymgeisio drwy ofyn cwestiynau yr oeddent wedi eu dewis, roedd ganddynt lais cyfartal mewn perthynas â chanlyniad yr ymarferiad caffael. O ganlyniad, llwyddodd NEWCIS i ddarparu’r gwasanaeth yn Sir y Fflint, sydd erbyn hyn yn cynnig gwasanaeth teg i bawb sy’n gofalu yn Sir y Fflint.

Yng ngeiriau un gofalwr ifanc a gyfwelodd â’r sefydliad llwyddiannus, “maen nhw’n rhyfeddol”.

Mae yna newidiadau newydd wedi bod i’r gwasanaethau Anabledd Dysgu, gan ail-leoli safle cyfleoedd gwaith Castle Connections i safle newydd ym Mharc Busnes Greenfield. Gwahoddwyd teuluoedd ac unigolion i weld y lle a rhoi eu mewnbwn i sut maent yn teimlo y dylai’r safle gael ei ddatblygu.

Dechreuodd y safle fel dau weithdy a rannwyd yn 4 ystafell weithgaredd ar wahân - un ar gyfer defnydd cyffredinol, un ar gyfer adnewyddu dodrefn ac ailgylchu, mae un yn ardal salon er mwyn dysgu sgiliau harddwch ac mae’r olaf yn adnodd TG ar gyfer y bobl sydd yn cael cymorth. Hefyd, gosodwyd ardal newid gan greu ardal newid fawr ar gyfer gofal personol a thŷ bach wedi ei addasu.

Gorffennodd y gwaith adeiladu yn Rhagfyr, yn barod ar gyfer dechrau ar weithgareddau pan fo cyfyngiadau yn caniatáu hynny. Ar ôl ymgynghori, mae’r safle wedi cael ei enwi yn Hwb Dyffryn, neu Abbey Hub, sydd yn gyfeiriad at Abaty Basingwerk ger Parc Treftadaeth Dyffryn Greenfield.

Mae teuluoedd unigolion sydd ag Anableddau Dysgu wedi bod yn rhan o’r broses o gomisiynu gwasanaeth byw â chymorth newydd ar gyfer eu hanwyliaid. Cytunodd dau deulu i gymryd rhan yn y broses gomisiynu gan fynychu nifer o gyfarfodydd ar-lein, a darparu adborth ar e-bost ac roeddent yn aelodau o’r paneli cyfweld ac arfarnu.

Dylanwadodd llais y teuluoedd ar y gwasanaeth oedd yn cael ei gomisiynu ac roeddent yn rhan o’r broses o ddethol y darparwr yr oeddent yn credu fyddai’n darparu’ gofal gorau i’w hanwyliaid. Roeddent hefyd wedi cynorthwyo o ran datblygu cynllun pontio oedd yn briodol iddyn nhw a’r aelod o’u teulu. Roedd y teuluoedd yn teimlo eu bid yn cael eu hysbysu drwy gydol y brosesa bod ganddynt fewnwelediad i’r prosesau y mae awdurdod lleol yn mynd drwyddynt wth ddatblygu gwasanaethau. Cafodd y swyddogion oedd yn cefnogi’r broses well dealltwriaeth o ddeiliannau llesiant yr unigolion oedd angen gofal a chymorth.

Adran 4

# Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Rhai yr Ydym yn eu Helpu

## Safon Ansawdd 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

Mae COVID-19 yn dai gael effaith ar bobl sydd yn byw yn eu cartrefi eu hunain a rhai sydd yn darparu gwasanaethau iddynt drwy ofal yn y cartref a gwasanaethau ail-alluogi.

Pan fo'n bosibl, mae gwasanaethau wedi cynnal busnes fel arfer, gyda rhai addasiadau er mwyn sicrhau bod pobl a staff yn ddiogel.

Mae ymweliadau wedi parhau drwy ddefnyddio OGP llawn ac asesiadau risg llawn wedi eu cynnal ac mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi parhau, er bod hynny yn rhithiol.

Mae'r gwasanaethau wedi angen bod yn hyblyg yn wyneb y galw a'r amgylchiadau newidiol, megid cynnydd yn y cymorth sydd ei angen wrth i aelodau teulu fynd yn ôl i'r gwaith ar ôl ffyrlo a phan laciwyd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Hefyd defnyddiwyd taliadau uniongyrchol, er enghraifft er mwyn galluogi i ofalwr fynd â rhywun allan am dro.

Mae'r timau wedi derbyn cymaint o sylwadau canmoliaethus hyfryd gan bobl oedd yn derbyn gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

***"Hoffwn i bobl wybod bod tîm Sir y Fflint, yn ddieithriad wedi darparu gofal eithriadol bob amser a thrugaredd tuag at fy Nhad, gan gymryd amser i ddeall ei anghenion a sicrhau bod ei berson cyfan yn cael gofal. Maen yn ei drin gydag urddas, parch, amynedd a hiwmor da. Mae ei ysbryd yn amlwg yn ysgafnhau pan mae'n gwybod bod tîm Sir y Fflint yn mynychu."***

***"Mae'r gofalwyr mor drwyadl, proffesiynol ac yn bobl sydd yn wirioneddol yn gofalu am fy  Mam, ac am gymaint o bobl eraill sydd yn agored i niwed hefyd yn sicr. Mae (Mam) wedi gwella 100%, mae ei hyder yn ei ôl, ac mae hynny wedi gwella ei llesiant...mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion, sydd yn arwyr y tu ôl i'r llenni, yn haeddu cael eu cydnabod am y gwaith gwych maent yn ei wneud i drigolion Sir y Fflint."***

Chwaraeodd Gweithwyr Cymdeithasol Ysbyty y Cyngor rôl allweddol o ran cynorthwyo pobl i ddychwelyd i'w cartrefi gan weithio ag unigolion, darparwyr a theuluoedd er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau'n ddiogel. Gan weithio gyda phob ysbyty acíwt yn yr ardal, arweiniodd hynny at gannoedd o bobl yn dychwelyd adref mewn ffordd ddiogel ac amserol, gan fyrhau'r amser oedd angen ei dreulio yn yr ysbyty.

Hefyd, gweithiodd timau ledled y Cyngor ar atal derbyniadau i ysbyty, megis Gweithwyr Cymorth Dementia, a ddarparodd gymorth emosiynol i deuluoedd, a pheilota 'gwasanaeth eistedd dementia', gan roi seibiant i ofalwyr o'u rôl o ofalu. Gwnaeth hynny wahaniaeth sylweddol i bobl oedd angen hynny oherwydd nad oedd nifer o ofalwyr wedi gallu cael mynediad i'w strwythurau cymorth arferol oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

Yn Nhachwedd 2019, cyflwynodd Cyngor Sir Y Fflint Ofal-Micro, a ddyluniwyd i hyrwyddo gofal cymdeithasol fel opsiwn gyrfa a helpu i ddatblygu mentrau micro-ofal er mwyn cefnogi pobl agored i niwed ledled Sir Y Fflint.

Roedd Micro-ofal yn gysyniad newydd yn Sir y Fflint. Y nod oedd annog pobl i fod yn ficro-ofalwyr oedd naill ai:

- Â diddordeb mewn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn, ond nad oes ganddynt brofiad efallai.
- Yn gweithio yn y sector gofal ond â diddordeb mewn bod yn fos arnyn nhw eu hunain.
- Yn cefnogi pobl yn eu cymunedau lleol.
- Yn disgwyl i wneud rhywbeth sydd yn cefnogi eraill ac sydd yn gwneud gwahaniaeth.

Mae dau Swyddog Datblygu Micro-ofal wedi bod yn gweithio ag unigolion er mwyn:

- Eu cefnogi i ddatblygu eu busnes neu syniad.
- Darparu gwybodaeth ar hyfforddiant, ariannu a chymorth ac adnoddau eraill sydd ar gael.
- Cefnogi unigolion i ddatblygu a darparu gwasanaeth safonol yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol Llywodraeth Cymru.
- Darparu cysylltiadau i rwydwaith o darparwyr micro-ofal eraill i gael cymorth.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r swyddogion datblygu wedi bod yn bwysig yn hyrwyddo'r prosiect ac yn cefnogi partïon â buddiant i ddechrau eu busnesau eu hunain, ac o ganlyniad i hynny, mae ganddynt wyth o fentrau micro-ofal sydd ar hyn o bryd yn cynnig gwasanaethau ledled Sir y Fflint, a chwech o unigolion eraill ar hyn o bryd yn gweithio ar y Rhaglen Micro-ofal.





Erbyn hyn mae yna 12 o fentrau Micro-ofal sydd yn darparu gwasanaethau yn Sir y Fflint, a phob un yn helpu pobl i naill ai aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach neu'n cefnogi llesiant parhaus unigolion.

Mae mwy o wybodaeth am Ficro-ofal, sut mae bod yn Ficro-ofalwr a phwy sydd yn darparu gwasanaethau ar gael ar wefan Gofal@SiryFflint.

Yn 2020/21, cyflwynwyd **Rhaglen Cynnydd i Ddarparwyr** i ddarparwyr gwasanaethau anableddau dysgu, ble mae ymarfer sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn wedi bod yn nodwedd o ofal a cymorth yn y sector hwn ers peth amser. Gan weithio eto gyda Helen Sanderson Associates roedd darparwyr yn ymgysylltu ag adolygu ac addasu offeryn hunanasesu Cynnydd i Ddarparwyr er mwyn sicrhau ei fod yn ddyheadol ac yn adlewyrchu safonau uchel presennol yn y sector.

Roedd cynrychiolwyr o wasanaethau darparwr mewnol ac annibynnol yn gweithio gyda'r Cyngor ar greu fersiwn newydd a phwrpasol o Gynnydd i Ddarparwyr, fersiwn sydd yn cydnabod pwysigrwydd penodol cyfathrebu digidol i bobl ag anableddau dysgu. Mae'r rhaglen yn cefnogi gweithredu Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru a Rhaglen Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru.

Mae 12 o ddarparwyr y sector annibynnol a gwasanaethu mewnol y Cyngor wedi cofrestru â rhan o'r rhaglen.

Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc, a bod raid mynd ati i Gynnig Eiriolaeth. Gall gwasanaethau eirioli helpu drwy siarad ar ran plant a phobl ifanc, gan sicrhau bod hawliau'r plentyn neu berson ifanc yn cael eu parchu.

Pan fo plant a phobl ifanc angen gwasanaethau, weithiau bydd angen i eiriolwr gyfarfod â nhw i egluro beth yw'r gwasanaethau hyn. Mae hynny yn eu helpu i ddeall beth sydd yn cael ei gynnig a sut mae'r gwasanaeth yn gallu eu helpu. Gelwir hynny yn gynnig actif.

Rhaid rhoi cynnig actif i:

- Blant sy'n derbyn gofal.
- Pobl ifanc sy'n gadael gofal.
- Plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae contract rhanbarthol wedi ei sefydlu sydd yn comisiynu Tros Gynnal Plant i ddarparu gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc y mae Cyngor Sir Y Fflint yn gofalu amdanynt.

Erbyn hyn gellir monitro faint sydd yn derbyn y cynnig actif. Mae 13 o blant wedi derbyn cynnig actif am eiriolaeth ers Ebrill 2020, ac aeth naw ohonynt ymlaen i weithio ag Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.

Dywedodd un person ifanc:

***"Mae gen i hawl i fy llais gael ei glywed. Diolch am wneud i mi ddeall hynny."***

Ym Mawrth 2021, lansiwyd Cerdyn ID Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru er mwyn rhoi cydnabyddiaeth i ofalwyr ifanc rhyfeddol Gogledd Cymru. Bydd y cerdyn yn darparu adnabyddiaeth ffoto i unrhyw ofalwr ifanc 18 oed neu iau sydd yn dymuno cael un. Byd hynny yn eu galluogi i ddangos pwy ydynt i weithwyr proffesiynol heb orfod rhannu manylion personol am eu rôl fel gofalwyr.

Mae Gofalwyr Ifanc wedi gofyn am gerdyn ID fel y gall athrawon, gweithwyr proffesiynol a manwerthwyr wybod eu bod yn ysgwyddo cyfrifoldebau pwysig. Mewn ymateb i hynny, bu i'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, amlinellu eu hymrwymiad i'r fenter hon drwy gyflwyno cerdyn adnabod cenedlaethol i ofalwyr ifanc mewn ymateb i Ymholiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad Cenedlaethol i Ddeddf Gwasanaetha Cymdeithasol a Llesiant 2014 ac effaith honno ar ofalwyr, yn ogystal â mynd i'r afael â'r tair blaenoriaeth genedlaethol i ofalwyr yng Nghymru.

Mae Sir y Fflint wedi bod yn allweddol o ran cyflawni'r dull rhanbarthol unigryw hwn yng Ngogledd Cymru a sicrhau ei lwyddiant.  Mae gofalwyr ifanc yn darparu cymorth hanfodol i'w teuluoedd a'u hanwyliaid, ac mae'r Cyngor yn eu gwerthfawrogi yn fawr am eu hymrwymiad a'u hanhunanoldeb.  Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi gofalwyr ifanc ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer addysg a chyflogaeth y mae gan bobl ifanc eraill fynediad iddynt.

Bydd y cerdyn ID yn cael ei gyflwyno fesul cam, a byd pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi lansio eu cerdyn erbyn Ebrill 2022.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Plant wedi bod yn gweithio **ar ymgorffori dulliau seiliwyd ar ddeilliannau** yn eu gwaith.  Mae buddsoddiad wedi cael ei wneud mewn gweithdai er mwyn cefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am asesiadau a chymhwysedd, yn ogystal â rhoi cymorth ymarferol i gofnodi achosion a'r rôl y mae goruchwylio a rheoli yn ei chwarae o ran ymgorffori cynlluniau gofal sydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau.

Mae hynny wedi arwain at newidiadau mewn ymarfer a wedi ysbrydoli staff i weithio mewn ffordd sydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau, ac mae hynny yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant a theuluoedd.

Mae Gogledd Cymru Ynghyd, y Rhaglen Drawsnewid Ranbarthol ar gyfer Anableddau Dysgu (AD), wedi adolygu eu gwefan ac wedi ei phoblogi ac arferion da yn rhanbarthol a thu hwnt, gwersi a ddysgwyd ac adnoddau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi rhoi cronfa brosiectau bychan ar waith, ac mae dros 50 o brosiectau bach wedi derbyn arian, yn cynnwys:

- Mae I-Team yn amcanu at helpu pobl greu eu I-Teams eu hunain o ffrindiau, teuluoedd a chydnabod, all fod yno i helpu'r unigolyn. Mae hynny wedi cael ei addasu er mwyn cael ei ddarparu'n rhithiol.
- Mae Outside Lives yn rhedeg amrywiol weithgorau sydd yn cydgynhyrchu gweithgareddau a digwyddiadau (e.e. Theatr, cerddoriaeth, bywyd gwyllt, cadwraeth etc.) yn seiliedig ar themâu penodol. Roedd eu cynnig yn cynnwys allgymorth penodol (a hyfforddiant cysylltiedig) i bobl ag AD, er mwyn gallu ymuno â grwpiau cynhwysol a datblygu gweithgareddau cymunedol cynhwysol.
- Mae Gig Buddies yn gynllun cyfeillio sydd yn paru pobl ag anableddau dysgu gyda gwirfoddolwr sydd y rhannu'r un diddordebau, fel y gallant fynd i gyngherddau a digwyddiadau gyda'i gilydd. Lansiwyd y prosiect yn ffurfiol ar 20 Tachwedd yng Nghynhadledd Flynyddol Anabledd Dysgu Cymru.
- Dyfarnwyd arian Love to Meet U i Hft er mwyn cynnal Rhwydwaith perthnasoedd a chanlyn ledled dwyrain y rhanbarth, er bid defnydd cynyddol o ddulliau rhithiol wedi galluogi i'w cyrhaeddiad gynnwys y rhan fwyaf o'r ardal ganolog a'r Dwyrain.

Mae'r maes gwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gweithio ar ddatblygu adnodd i bobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn helpu gyda gwneud penderfyniadau o ran

gadael ysgol a defnyddio gwasanaethau oedolion. Mae'r tîm hefyd yn edrych ar ap arloesol fydd yn cefnogi datblygu cynlluniau Cymorth Actif i bobl ag anableddau dysgu.

Hefyd, sefydlodd y rhaglen Fforwm Darparwyr yn sgil pandemig COVID-19 pan fo partneriaid wedi cydweithredu'n dda ac wedi rhannu arferion da a rhannu adnoddau er mwyn bodoli anghenion pobl ag anableddau dysgu ledled Gogledd Cymru.

Drwy'r Rhaglen Drawsffurfio Ranbarthol ar gyfer Iechyd Meddwl, agorodd Canolbwynt Cymunedol 'MI FEDRAF' Y Fflint yn Ebrill 2020 yn Llyfrgell Y Fflint. Dyluniwyd y Canolbwynt er mwyn cynorthwyo pobl i gysylltu â chymorth a gweithgareddau sydd yn fwyaf perthnasol iddyn nhw gyda'r nod o ddarparu ymyrraeth gynnar er mwyn atal problemau rhag gwaethygu.

Mae tîm y Canolbwynt yn cynnwys dau Gydlynydd Llesiant Cymunedol MIND, Gweithiwr Cymdeithasol Llesiant ac Adfer Cyngor Sir Y Fflint a bydd yn cael ei ehangu gan wirfoddolwyr.

O ganlyniad i sefyllfa COVID-19 nid oedd yn bosibl cael presenoldeb yn y llyfrgell, oedd wedi ei chau. Addaswyd y gwasanaeth i'r sefyllfa newydd er mwyn darparu rhaglenni cymorth yr eu gwir angen, sydd yn archwilio cryfderau unigolion, yn adeiladu hyder a sgiliau bywyd ac yn cynorthwyo pobl i wynebu sefyllfaoedd anodd.

Hefyd, dechreuodd grŵp Dynion Da Sir y Fflint ym Mawrth 2020, oedd yn rhoi cymorth i unrhyw ddyn oedd yn rhoi gofal gyda rhiantu a gwella eu iechyd meddwl, gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cymorth cymheiriaid.

O ganlyniad i'r pandemig, gohiriwyd y Rhaglen Drawsnewid Ranbarthol ar gyfer Cymorth Cymunedol am nifer o fisoedd. Symudwyd y tîm oedd yn darparu'r rhaglen er mwyn helpu i agor dau gartref gofal ychwanegol er mwyn darparu gwelyau ychwanegol er mwyn delio â'r cynnydd disgwyliedig yn y galw.

Ar gychwyn y pandemig byd-eang, gwnaeth y tîm hefyd waith paratoi ar gyfer datblygu llwybr defnyddio gwirfoddolwyr gan chwarae rôl ganolog wrth ddatblygu fersiwn gyntaf cynllun adfer ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn Sir y Fflint.

Wrth i aelodau'r tîm ddod i ben â'u gwaith o ymateb i'r argyfwng, dechreuodd gwaith ledled ardal y dwyrain ar ddatblygu y model o ofal a chymorth ar gyfer y gwelyau gofal tymor byr yn Nhŷ Marleyfield, er mwyn datblygu peth cymorth ychwanegol i bobl sydd yn byw â Dementia ac ymestyn gwaith amlddisgyblaethol er mwyn bodloni anghenion trigolion ag anghenion cymhleth.

# Blaenoriaethau

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 fydd:**

**Cyfrannu at Asesiad Anghenion Poblogaeth Ranbarthol a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad**

**Symud Micro-ofal o raglen beilot i ran o'r ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol parhaus.**

## Safon Ansawdd 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid er mwyn gwarchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol

Drwy gydol y pandemig, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r sector annibynnol er mwyn cefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol ledled y sir. Mae hynny wedi cynnwys gweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn gweinyddu'r cynllun £500 er mwyn cydnabod a gwobrwyo gwaith caled ac ymrwymiad staff gofal cymdeithasol sydd yn darparu gofal hanfodol i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ystod cyfnod mwyaf heriol pandemig COVID-19. Anelwyd y cynllun hwn at staff mewn cartrefi gofal cofrestredig a gwasanaethau gofal yn y cartref ac roeddent yn cynnwys Cymorthyddion Personol (PA).

Y cyfanswm a dalwyd yw £2,131,230 sydd yn golygu 441 o weithwyr y Cyngor, 319 PA, 56 staff Newydd a 2391 staff o sefydliadau gofal annibynnol.

Hefyd bu i'r Cyngor gynorthwyo'r gwaith o weinyddu Cynllun Gwella Tâl Salwch Statudol (SSP) COVID-19. Mae'r cynllun yn cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol y mae angen iddynt gadw draw o'r gwaith oherwydd COVID-19 gwirioneddol neu a amheuir er mwy talu cyflog llawn i weithwyr cymwys os na allant weithio oherwydd COVID-19. Mae hynny yn cael gwared â'r anfanteision ariannol i weithiwyr gofal cymdeithasol sydd yn gorfod cadw draw o'r gwaith.

Hefyd darparwyd mwy o arian er mwy sefydlu gofodau profi diogel mewn cartrefi gofal ac er mwyn cefnogi'r rhaglen brofi.

Yn olaf, darparodd Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru gymorth ariannol ychwanegol i'r sector oedd yn cynnwys:

- Cymorth at gost gwelyau gwag mewn cartrefi gofal, a £50 ychwanegol yr wythnos am bob un o'r trigolion.
- £1 yr awr yn ychwanegol i staff gofal yn y cartref.
- £37 yr wythnos yn ychwanegol i ddarparwyr Byw â Chymorth.
- Cymorth arall, er enghraifft, arian ar gyfer capasiti staff ychwanegol er mwyn cynorthwyo unigolion oedd yn cael anhawster ynysu yn eu cartrefi gofal.

Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Y Fflint (FLVC) wedi bod yn aelod gweithgar a gwerthfawr o grwpiau ymateb tactegol Cyngor Sir Y Fflint a Byrddau Iechyd Cymru yn eu hymdrechion i frwydro yn erbyn argyfwng COVID-19.

Er mwyn galluogi'r cymorth hwn aseiniodd FLVC dau Ragnodwr Cymdeithasol yng Ngwasanaeth Un Pwynt Mynediad Sir y Fflint (SPoA) ac un yn y Gwasanaeth Cymorth Canolbwynt Help Cynnar.

Derbyniodd yr SPoA gynnydd o 700% mewn galwadau am gymorth yn ystod y cyfnod clo cyntaf, o'i gymharu â nifer cyfartalog o atgyfeiriadau y mis cyn pandemig COVID-19. Yn Ebrill derbyniwyd 410 o atgyfeiriadau newydd.

Roedd y galwadau yn ymwneud â nifer o feysydd o ran ceisiadau am gymorth, o gymorth gyda pharseli bwyd a chasglu presgripsiynau, ynghyd â chynnydd amlwg mewn galwadau am gymorth emosiynol a chymorth i helpu i leddfu unigrwydd pobl.

Mae'r Rhagnodwyr Cymdeithasol wedi bod yn chwarae rôl allweddol drwy gyfeirio pobl at grwpiai cymunedol lleol sydd yn trefnu eu hunain ac a redir gan wirfoddolwyr, cludo bwyd a sefydliadau trydydd sector megis Banc Bwyd Sir Y Fflint, Age Connects, rhaglen Bwydo'n Dda a Homestart.



Mae'r Cyngor wedi bod y gweithio gyda sefydliadau gofal dydd cofrestredig, Aura a Theatr Clwyd er mwyn sefydlu rhaglen o gymorth i blant agored i niwed, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod cyfnodau gwyliau. Mae'r cynlluniau wedi rhoi i blant a phobl ifanc seibiant yr oed ei wir angen ar ôl y cyfnod clo, pryd yr oeddent yn gallu gwneud ffrindiau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau na fyddent efallai wedi rhoi cynnig arnynt cyn hynny.

Fel rhan o'r cymorth ychwanegol i deuluoedd agored i niwed yn ystod y pandemig, mae'r Tîm Cymorth Cynnar wedi gweithio'n galed ar drefnu i 20 o blant rhwng pum ac wyth oed i gael cymorth mewn sefydliadau gofal dydd cofrestredig yn ystod cyfnod yr haf.

Darparodd Aura 'Wersylloedd Aml Chwaraeon Haf' a sefydlwyd mewn amrywiol leoliadau ledled y Sir. Gallai plant a fynychai'r gwersylloedd gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a gweithio ar eu sgiliau unigol. Yn ystod y sesiynau cynigiwyd amrywiaeth o wahanol chwaraeon a gweithgareddau o fewn y canllawiau, yn cynnwys pêl-droed, hoci, pêl-fasged, athletau, gymnasteg, criced, golff, golff-droed, golff taflu a thennis.

Rhoddodd plant a rhieni adborth cadarnhaol iawn, ac adroddodd yr hyfforddwyr eu bod wedi gweld hyder y plant yn cynyddu'n raddol yn ystod y pum wythnos o weithgareddau.

Sefydlodd Theatr Clwyd raglen bedair wythnos ar gyfer plant a phobl ifanc ellid ei mynychu bum diwrnod yr wythnos. Dyluniwyd y cynllun i fod yn brofiad creadigol llawn hwyl gyda cherddoriaeth, dawns, drama a chelf.

Dywedodd Gwennan Mair, Cyfarwyddwr Ymgysylltu Creadigol Theatr Clwyd,

***"Rydym yn ei theimlo yn fraint gallu agor ein drysau unwaith eto i bobl ifanc rhyfeddol. Rydym wedi eu gweld yn tyfu mewn hyder ac yn datblygu eu sgiliau perfformio, ac ar y diwrnod olaf yn perfformio ar ein llwyfan AHT anferth. Cafodd pawb amser mor ysbrydoledig yr haf hwn. Roedd yn amlwg y gall y celfyddydau wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl."***

Mae Double Click yn parhau i flodeuo fel Menter Gymdeithasol gan gefnogi pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl i gyflawni eu deilliannau personol. Mae Double Click yn llwyddo i gael y cydbwysedd perffaith rhwng rhedeg gwasanaeth dylunio ac argraffu tra'n cynnig cyfleoedd i bobl dysgu sgiliau newydd a pharhau ar eu taith o wella.

Mae gwasanaethau cymorth Iechyd Meddwl wedi bod yn greadigol iawn yn ystod y cyfnod clo, gan addasu a datblygu ffyrdd diogel o barhau i gynorthwyo pobl. Mae enghreifftiau yn cynnwys hyfforddiant ar-lein a sesiynau dysgu a phecynnau celf a chrefft yn cael eu rhoi i bobl yn y gymuned.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y gymuned er mwyn darparu prosiect peilot, er mwyn gwella **gwytnwch a llesiant cymunedol.** Ffocws y cynllun peilot yw darparu 'fframwaith Gwytnwch Cymunedol' mewn dwy gymuned yn Sir Y Fflint, Fflint a Threffynnon (Holway) ble mae yna ddeilliannau iechyd a llesiant cymharol isel wedi bod am gyfnod o 12 mis. Pwrpas y cynllun peilot yw datblygu cronfa dystiolaeth er mwyn cefnogi'r achos o blaid newid ehangach mewn systemau, gan ddangos effeithiolrwydd y dull hwn o ran gwella lefelau gwytnwch cymunedol a llesiant plant a phobl ifanc yn yr ardal leol.

Mae methodoleg Arweinyddiaeth Systemau, sef dulliau seiliedig ar gyfranogi, gan adeiladu ar asedau cymunedol, datblygu gweithio mewn partneriaeth seiliedig ar gydgynhyrchu, yn ddelfrydol addas er mwyn mynd i'r afael â'r heriau o ran gwella gwytnwch cymunedol. Ymgysylltwyd â nifer o aelodau a sefydliadau cymunedol.

Mae'r prosiect wedi cefnogi mynediad i Ganolfan Gymunedol a 'Thŷ Cymunedol' yn Holway. Gall y rhain fod yn fannau cyswllt gyda gwasanaethau yn ogystal â gan aelodau eraill y gymuned, ble gall pobl leol deimlo balchder yn eu hardal. Hefyd mae gardd gymunedol wedi cael ei sefydlu yng nghanolfan gymunedol Holway ac mae honno eisoes wedi effeithio'n gadarnhaol ar estheteg a bywyd gwyllt lleol. Wrth i'r pandemig gilio, bydd y prosiect yn gallu bod yn fwy gweledol yn y gymuned ac ymgysylltu â mwy o drigolion lleol ac ysgolion.

Mae **cefnogi pobl â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr** yn dal yn faes blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Cyngor Sir y Fflint, ac mae yna lawer o gynnydd i adeiladu arno.

Cyhoeddwyd Strategaeth Dementia Rhanbarthol ym Mawrth 2020 er mwyn nodi sut y bydd gwasanaethau yn gweithio ar wasanaethau dementia integredig yng Ngogledd Cymru. Mae wedi ei datblygu ar y cyd gan chwe chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor a phartneriaid eraill.

Mewn ymateb i'r strategaeth hon, bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid lleol er mwyn datblygu Strategaeth Sir y Fflint

er mwyn bodloni deilliannau'r strategaeth rhanbarthol, ynghyd â gweithgareddau lleol fydd yn cael eu diffinio gan y gymuned a phartneriaid. Bydd hynny yn cwmpasu lawer o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yn Sir y Fflint, ochr yn ochr â meysydd newydd ar gyfer datblygu y dylanwadwyd arnynt gan ymgysylltu â rhwydwaith Sir y Fflint o Gymunedau Dementia Gyfeillgar a phobl sydd â phrofiadau bywyd.

Mae'r Cyngor unwaith eto wedi cael ei gydnabod gan Gymdeithas Alzheimer fel sefydliad sydd yn symud at fod yn Dementia Gyfeillgar. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn rhwymedig i godi ymwybyddiaeth o effaith dementia drwy sesiynau Ffrindiau Dementia rheolaidd gyda Hyrwyddwyr Ffrindiau Dementia. Bydd y gwaith hwn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach drwy ddatblygu Strategaeth leol.

Mae mwy o wybodaeth am wasanaethau ar gyfer pobl sydd yn byw â dementia a'u gofalwyr ar gael ar Dudalennau gwe Dementia y Cyngor.

Ochr yn ochr â chymorth ar gyfer Cymunedau Dementia Gyfeillgar, mae nifer o Gymunedau Dementia Gyfeillgar yn datblygu gan ddilyn gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer sefydlu Cymru fel gwlad o Gymunedau Dementia Gyfeillgar o dan flaenoriaeth Heneiddio'n Dda ei Blaenoriaeth.

Yn dilyn cyfres o weithdai ar ddatblygu cymuned Dementia Gyfeillgar a chyflwyniadau i Gynghorau Cymuned, Leeswodd a Phontblyddyn oedd y gymuned gyntaf i weithio tuag at fod yn Oed-gyfeillgar. Erbyn hyn mae ar ei thrydedd blwyddyn o ddatblygu Cymuned Oedran Gyfeillgar, ac mae dwy gymuned arall, Pentrefi Alyn (Hope, Caergwrle, Abermorddu) a Therffynnon a'r ardal, yn gweithio ar fod yn Oedran Gyfeillgar, ochr yn ochr â datblygiad Dementia Gyfeillgar.

Mae plant a theuluoedd wedi elwa o **gymorth seibiant hyblyg a chreadigol,** mewn partneriaeth â Gweithredu dros Blant a sefydliadau eraill y trydydd sector. Mae Arosfa yn wasanaeth sydd wedi ei hen sefydlu sydd yn darparu seibiannau tymor byr i blant ag anableddau. Mae adain dde segur Arosfa wedi cael ei hadnewyddu ar gyfer darparu dau ofod gwely ychwanegol yn y cyfleuster. Mae'r dau wely newydd yn ychwanegol at y ddarpariaeth seibiant tymor byr ar gyfer hyd at dri o blant.

Mae'r ystafelloedd newydd yn galluogi i hyd at bump o balant gael cymorth ar unrhyw adeg, gan leihau dibyniaeth ar leoliadau costus y tu allan i'r sir, wrth i blant lleol gael cefnogaeth yn eu sir eu hunain.

Yn gweithio i fod yn Dementia Gyfeillgar 2021 Working to become Dementia Friendly

# Blaenoriaethau

## Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 fydd:

Datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu er mwyn cefnogi pobl sydd yn byw â Dementia a'u gofalwyr a pharhau i gael ein cydnabod fel Cyngor sydd yn 'Gweithio ar fod yn Dementia Gyfeillgar'

Rhoi'r model gofal a chymorth newydd ar waith yn Arosfa

# Safon Ansawdd 3: Cymryd camau i warchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Mae diogelu yn cael ei gefnogi gan weithwyr y Cyngor ledled y gwasanaethau ac mae'r gweithlu wedi bod yn cael mynediad i hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn er mwyn ymgorffori'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a gyflwynwyd yn 2019.

Mae'r broses o weithredu Mesurau Diogelu Gwarchodaeth i Ryddid wedi cael ei oedi, gyda dyddiad gweithredu newydd wedi cael ei bennu ar gyfer Ebrill 2022. Bydd Cod Ymarfer drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn 2021, ac ar ôl hynny bydd cynllun manwl ar gyfer hyfforddi staff a newidiadau i systemau yn cael eu gweithredu.

Mae **Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** (VAWDASV) yn faes gwaith hynod bwysig i'r Cyngor, ledled yr holl gyfarwyddiaethau, ac mae'r Cyngor yn gwestio'r tîm VAWDASV Rhanbarthol. Ers dechrau'r pandemig, mae gwasanaethau arbenigol yn Sir y Fflint wedi gweld cynnydd o 40% mewn atgyfeiriadau ar gyfer cymorth er gwaetha'r anawsterau amlwg o ran darparu hynny yn ystod cyfyngiadau'r cyfnod clo.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed er mwyn caffael achrediad Rhuban Gwyn, sef yr unig Awdurdod Lleol yng Nghymru i gael hynny. Mae hynny yn golygu bod y Cyngor yn cydnabod bod trais gan ddynion yn ei holl ffurfiau yn effeithio'n negyddol ar lesiant staff yn ogystal â'u diogelwch, a'n bod yn dymuno hyrwyddo diwylliant gweithlu diogel o barch i bawb, drwy wella diogelwch a morâl.

Sefydlwyd Fforwm VAWDASV Sir y Fflint ac mae'n cael ei fynychu gan weithwyr rheng flaen ledled y Cyngor, yn ogystal â phartneriaid o'r sectorau statudol a'r trydydd sector. Mae'r fforwm yn bwydo i mewn i'r grŵp llywio MARAC rhanbarthol er mwyn sicrhau darpariaeth fwy cyson ledled Gogledd Cymru.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn 2015, er mwyn sicrhau bod gan bob gweithiwr yn y sector cyhoeddus ymwybyddiaeth o VAWDASV a bod y rhai sydd yn gweithio â phobl sydd yn agored i niwed sydd yn wynebu risg o gamdriniaeth yn cael gwell hyfforddiant. Mae'r rhaglen ymwybyddiaeth ar gyfer yr holl staff (E-ddysgu Grŵp 1) wedi bod ar gael i staff. Mae'r rhaglen Grŵp 2 (Gofyn a Gweithredu) wedi cael ei chofleidio gan y Cyngor, gyda 9 aelod staff yn ymgymryd â'r modiwl 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr', yn barod ar gyfer cyflwyno'r rhaglen ledled yr awdurdod yn 2021/22.

Mae menter a lansiwyd gan y Swyddfa Gartref yn Ionawr Ask ANI, yn cynnwys hyfforddi staff fferyllfaoedd i wrando ar ac i gyfeirio dioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Cynghorir y rhai sydd yn ceisio cymorth i "Ofyn am Ani" a byddant yn cael eu tywys i ofod cyfrinachol yn y fferyllfa, a bydd gwasanaethau cyfeirio yn cael eu cynnig. Rhannwyd gwybodaeth am y cynllun drwy'r Rhyngrwyd yn Ionawr 2021 i holl staff y Cyngor.

Mae **Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf** yn Sir y Fflint wedi arwain y ffordd o ran darparu gwasanaethau allweddol i rieni, pobl ifanc a theuluoedd â phlant anabl. Mae darpariaeth arloesol y rhaglen yn ystod y tari blynedd diwethaf, gyda'i threfniant unigryw o gael ei hymgorffori yng Nghanolbwynt Cymorth Cynnar amlasiantaeth Sir y Fflint wedi bod yn llwyddiant mawr.

Sefydlodd Sir y Fflint Fwrdd Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf amlasiantaeth er mwyn goruchwylio'r broses o gyflawni'r rhaglen hon a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, a chytunwyd ar gynllun gyda ffocws ar:

- Adnabod ac ymgysylltu'n gynnar â theuluoedd sydd yn wynebu mwy o risg o broblemau allai esgoli;
- Dulliau sydd yn ymwneud mwy â'r 'teulu cyfan' ar gyfer gweithio â phobl ifanc a theuluoedd ag anghenion lluosog; ac
- Ymgorffori ymarferion cynhwysol ledled cymorth cynnar a gwasanaethau atal ar gyfer teuluoedd â phlant ag anableddau ac ar gyfer teuluoedd sydd yn ffafrio cymorth yn y Gymraeg neu yn eu dewis iaith.

Yn ystod y cyfnodau clo, mae disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim ac nad ydynt yn gallu mynychu ysgol yn llawn amser wedi derbyn **Taliad Uniongyrchol** diogel er mwyn rhoi wy o hyblygrwydd i deuluoedd i brynu bwyd i blant. Mae rhieni/gofalwyr wedi gallu cofrestru â'r gwasanaeth drwy borth diogel ar wefan y Cyngor.

Mae cyfyngiadau Haen 4 wedi bod yn arbennig o anodd i'r trigolion sydd yn fwyaf agored i niwed, pobl sydd yn byw ar eu pennau eu hunain sydd wedi eu clustnodi fel pobl sydd yn Glinigol Eithriadol Agored i Niwed, yn arbennig yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Yn ystod y cyfnod hwn, rhannodd y Cyngor wybodaeth am gysylltiadau allweddol allai helpu ac a all drefnu i gludo bwyd a meddyginiaeth i gartrefi.

Mae 'Well-Fed', mewn partneriaeth â Cyngor Sir Y Fflint, Clwyd Alyn a Can Cook, wedi bod yn cludo prydau bwyd, bagiau prydau araf a bocsys diogelwch i gannoedd o aelwydydd agored i niwed yn Sir Y Fflint am ddim - gan sicrhau bod trigolion sydd yn wynebu anhawster, trigolion sydd yn hunanynysu ac na allant fynd allan, a thrigolion anghenus mewn cynlluniau â lloches a thai â chymorth, yn derbyn bwyd ffres da.

Yn ystod y pandemig, mae'r gwasanaeth wedi gallu cefnogi pobl sydd wedi bod yn cael eu gwarchod a'r tenantiaid mwyaf agored i niwed gyda phrydau bwyd iach a maethlon ac yn darparu nwyddau ffres ar ffurf bocsys gwarchod Well-Fed. Mae'r rhain yn cynnwys prydau bwyd wedi eu paratoi yn ffres, ynghyd â nwyddau megis bara, llaeth, wyau a chynnyrch ffres arall, yn ogystal ag unrhyw rodion caredig yr ydym wedi eu derbyn er mwyn rhoi maeth i drigolion. Roedd y nwyddau yma yn lleihau'r angen i ymweld ag archfarchnadoedd, ac yna aml dyma'r unig fwyd y mae  rhai trigolion, sydd yn gorfod gwarchod eu hunain, yn ei dderbyn.

***"Rwyf mor diolchgar i'ch gwasanaeth am y prydau bwyd rhagorol a'r nwyddau a ddanfonwyd i mi a fy mhartner...byddaf yn fythol ddiolchgar i chi am roi y pecyn bwyd, ac roedd yn flasus iawn hefyd. Roeddwn eisiau dweud DIOLCH."***




Hefyd, mae NEWCIS yn cefnogi dros 9,000 o ofalwyr di-dâl yn Sir y Fflint, mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol. Maent yn cynnig ystod eang o gymorth i ofalwyr di-dâl, yn amrywio o wybodaeth, cyngor, asesiadau gofalwyr, cwnsela, grantiau, cyfleoedd cymdeithasol a seibiant.

Mae COVID-19 wedi effeithio'n anferthol ar **ofalwyr di-dâl**, sydd mwyaf sydyn yn methu â chael mynediad at y mathau arferol o gymorth yr oeddent ei angen i ofalu amdanynt eu hunain a'u hanwyliaid.

O ganlyniad i hynny, addasodd NEWCIS y ffordd maent yn cefnogi gofalwyr di-dâl, drwy ddarparu gwybodaeth a chymorth dros y ffôn ac ar-lein, pa un bynnag sydd orau i'r gofalwr. Maen hefyd wedi helpu gyda chymorth ymarferol, megis mynediad i fwyd a 'bocsys prysur', cynyddu eu mynediad i gymorth ar-lein, cymorth emosiynol a chadw mewn cysylltiad gyda nhw drwy gydol y cyfnod ansicr hwn.

Enillodd gwasanaeth seibiant **Pontio'r Blwch** NEWCIS Wobr Gofal Cymdeithasol 2020 yn y categori 'Gwella gofal a chymorth gyda'n gilydd yn y cartref'. Datblygwyd Pontio'r Bwlch mewn partneriaeth gan Grŵp Strategaeth Gofalwyr, NEWCIS a Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint er mwyn cydnabod y bwlch o ran seibiant tymor byr, hyblyg a hygyrch i ofalwyr. Mae fideo fer am y rhaglen wobrwyog ar gael yma.

Ers ei sefydlu yn 2013, mae'r gwasanaeth wedi parhau i esblygu a gweithio gyda thros 40 o wahanol ddarparwyr gofal a chymorth amnewidiol. Mae ychwanegiadau diweddar i'r gwasanaeth yn cynnwys defnyddio'r cymorth micro-ofalwyr a theuluoedd newydd er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd ar gyfer seibiant yn ystod y pandemig diweddar.

Mae gwasanaeth 'Pontio'r Bwlch' yn galluogi i ofalwyr gymryd seibiant o'u rôl fel gofalwyr ar adegau sydd yn eu siwtio nhw ac i wneud y pethau sydd yn bwysig iddyn nhw, gan gynnig seibiant sydd yn wirioneddol yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Gall gofalwyr gael mynediad i'r gwasanaeth yn dilyn Asesiad Anghenion Gofalwyr pan fo seibiant yn cael ei ddiffinio fel deilliant llesiant i'r gofalwr. Yna rhoddir cod seibiant i'r gofalwr sydd yn werth £300 i'w ddefnyddio fel y dymunant yn ystod cyfnod o 6 mis.

Mae'r Cyngor yn falch o fod wedi gweithredu fel y cyflogwr arweiniol ar gyfer y Gwasanaeth Olrhain Cyswllt Gogledd Cymru newydd, ac mae wedi recriwtio timau olrhain sydd wedi eu halinio i bob un o'r chwe chyngor yng Ngogledd Cymru, gan weithio er mwyn hysbysu pobl a'u diogelu yn ystod y pandemig.

## Blaenoriaethau

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 fydd:

Annog gweithwyr i gwblhau e-fodiwl Llywodraeth Cymru "Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Erbyn Merched" er mwyn sicrhau cyfradd gwblhau 100%.

Gweithredu Mesurau Diogelu Gwarchod Rhyddid

# Safon Ansawdd 4:
# Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas

Mae'r bartneriaeth gyda **Hft** er mwyn darparu Gwasanaethau Anabledd Dysgu wedi parhau i fynd o nerth i nerth, er gwaethaf heriau'r pandemig. Yn ystod y cyfnod hwn, mae unigolion wedi parhau i gael cymorth drwy ddull cyfun, yn cynnwys gweithgareddau rhithiol a ddarperir ar-lein, ymweliadau â phellter cymdeithasol, teithiau cerdded â phellter cymdeithasol, cymorth yn y cartref i bobl sy'n Byw â Chymorth a galwadau ffôn arferol. Hefyd, mae planhigion, gwrtaith a photiau wedi cael eu hanfon i'r rhai sydd yn cael mynediad i Tri-Ffordd fel y gallant barhau gyda'u gweithgareddau garddwriaethol.

Erbyn hyn mae gan y gwasanaeth lyfrgell ddigidol o 87 tabled sydd wedi cael eu prynu drwy grantiau elusennol a rhoddion gan y Cyngor. Mae'r gweithgareddau ar-lein, a ddarperir fel rhan o 'ganolfan dydd rithiol' wedi bod yn eithriadol boblogaidd





ac maent wedi galluogi pobl i deimlo cysylltiad tra eu bod gartref, gan fynd i'r afael ag unigrwydd. Er mwyn cefnogi'r ganolfan dydd rithiol, mae pecynnau gweithgareddau wedi cael eu rhoi hefyd i bobl gymryd rhan yn y sesiynau Zoom neu i'w cwblhau eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys pecynnau toes halen, setiau dal breuddwydion, pecynnau celf a chrefft a phecynnau tyfu blodau haul.

Mae'r gwasanaeth wedi parhau i wneud gwelliannau i'w cyfleusterau. Yn ogystal â datblygu **Hwb Dyffryn**, derbyniodd Hft £15,000 o gan y Postcode Lottery er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn Hwb Cyfle. Erbyn hyn mae gan y bobl a gefnogwyd fynediad i welyau plannu dyrchafedig hygyrch i gadeiriau olwyn, offerynnau cerddorol awyr agored a siglen Cadair Olwyn.

Mae gweithgareddau hefyd yn newid yn Abbey Metal, yn dilyn adolygiad o'r tasgau. Erbyn hyn mae'r gweithdy wedi cael ei ailenwi yn **Uwchgylchu Abaty**, ac mae'n cael ei ailddylunio er mwyn uwchseiclo beiciau. Bu i ymgyrch fer ar Facebook alluogi i'r gwasanaeth dderbyn 35 i feiciau mewn gwahanol gyflyrau, a phob un yn barod i waith gael ei wneud arnynt. Mae pum gorsaf ar gyfer standiau beiciau a both paentio wedi cael eu gosod. Hefyd, bydd yr ardal i fyny'r grisiau yn cael ei neilltuo ar gyfer gwaith trydanol. Bydd yna hefyd ardal ar gyfer adnewyddu darnau o ddodrefn mwy o faint, a bydd ffrynt yr adeilad yn cael ei ailddylunio i fod yn ffrynt siop er mwyn arddangos eitemau ar werth.

Mae Hft wedi llwyddo i lansio Luv2meetU. Mae Luv2meetU Sir y Fflint yn canolbwyntio ar gefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu, a'u teuluoedd i ddatblygu a chynnal perthnasoedd, gwella eu iechyd

a llesiant ac ymestyn eu rhwydweithiau cymdeithasol. Nawr yn fwy nag erioed mae pobl angen cymorth er mwyn eu galluogi i atgyfnerthu eu cysylltiadau cymdeithasol sydd yn gritigol i lesiant a hapusrwydd pawb.

Hefyd derbyniodd y Cyngor a Hft ‘Ganmoliaeth Uchel’ gan Wobrau Gofal Cymdeithasol Cymru am eu gwaith o ddarparu gweithgareddau dydd ystyrlon i dros 250 o bobl ag anableddau dysgu. Mae fideo fer am y prosiect ar gael yma.

Mae internau **Prosiect SEARCH** 19/20 wedi graddio o’r rhaglen, ac erbyn hyn mae pedwar o bobl ifanc yn gweithio dros 16 awr yr wythnos, a dau wedi cael swyddi gyda’r Cyngor. Mae hyfforddiant swyddi dilynol yn parhau drwy gyfrwng clwb swyddi ar gyfer y rhai nad ydynt yn gweithio.



*Letitia ar eu diwrnod cyntaf yn gweithio yn Llys Raddington.*

Dywedodd Owen:

***“Roedd bod yn rhan o Brosiect SEARCH yn dda iawn. Cefais wneud ffrindiau newydd a chael gwybod sut deimlad yw gweithio’n annibynnol. Mae gweithio gyda Chyngor Sir Y Fflint yn wych, mae’r saff yn neis i weithio gyda nhw ac mae’n cadw fi’n brysur drwy gydol y dydd”.***

Erbyn hyn mae saith intern wedi dechrau ar y rhaglen Prosiect SEARCH nesaf, sydd yn cael ei chynnal fel partneriaeth rhwng y Cyngor, Hft, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Choleg Cambria. Mae’r holl Interniaid yn mwynhau’r rhaglen a’u gwaith gwirfoddol, ond maent yn awyddus i fynd allan o’r dosbarth ac i’w lleoliadau gwaith.

Er mwyn helpu pobl i baratoi ar gyfer byd oedolion, ac yn dilyn adolygiad o’r gwasanaethau pontio presennol ar gyfer pobl ifanc ag anableddau, sefydlwyd y Tîm **Plentyn i Oedolyn** newydd.

Mae’r tîm wedi buddsoddi mewn hyfforddiant er mwyn ymgorffori egwyddorion a chamau sydd yn angenrheidiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â phlant ag anableddau. Mae hynny yn cynnwys ffocws ar glywed llais y plentyn, profiad bywyd y plentyn a gweithio ar gyflawni deilliannau personol.

Mae cynllun gweithredu yn cofnodir llwyddiannau niferus hyd yma, a’r gweithgareddau datblygiadol sydd yn barhaus yn esblygu gan y gwasanaeth deinamig a datblygiadol yma. Mae’r newidiadau i’r gwasanaeth yn creu effaith, a dwedodd un person ifanc:

***Oni bai am X, ni fuaswn wedi dod drwy hyn. Mae wedi gwneud bywyd yn haws yn ystod y cyfnod clo, weithiau drwy weithredu neu weithiau drwy alwad ffôn yn unig. Pan glywais bod ysgolion yn cau o Fawrth i Fedi, roedd yn ddychrynllyd. Roedd X yno i siarad gyda mi drwy hynny”.***

Mae Cyngor Sir Y Fflint wedi derbyn £4,890,000 gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella darpariaeth gofal plant ger neu ar safleoedd ysgol, a elwir yn **“Gynlluniau Grant Cyfalaf Mawr Darpariaeth Gofal Plant”.** Ar hyn o bryd mae yna ddeg o safleoedd ysgolion cynradd fydd yn elwa o’r arian hwn.

Mae hwn yn swm sylweddol o arian i Sir y Fflint a bydd o fudd i nifer o rieni sy'n gweithio sydd angen gofal plant cyn ysgol ac er mwyn i blant gael cyfleusterau modern ar gyfer chwarae, dysgu a datblygu. Ar ôl cyfnod o gynllunio a gweithio gyda chydweithwyr ym maes gofal plant ac addysg, enillodd Wynne Construction y contract i wneud y gwaith hwn.

Roedd yn rhaid goresgyn yr heriau a achoswyd gan COVID-19 er mwyn sicrhau bod y gwaith yn parhau ar amser, a diolch i ymdrech tîm gwych, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud gyda'r rhaglen waith uchelgeisiol hon. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda Wynne Construction ar ddylunio'r hyn fydd yn ofod modern helaeth i blant chwarae a ffynnu. Gobeithir y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn ystod Gwanwyn 2021, gyda dyddiad cwblhau erbyn Mawrth 2022.

Ar ôl cais llwyddiannus, mae Cyngor Sir Y Fflint hefyd wedi derbyn £622,000 gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu cymorth cyfalaf i sefydliadau gofal plant, y cyfeirir ato fel Cynlluniau Grant Cyfalaf Bychan Darpariaeth Gofal Plant. Roedd y grant yma yn cefnogi darpariaeth gofal plant o ansawdd yn Sir y Fflint gyda gwelliannau i ystafelloedd gofal plant, ceginau, gofod awyr agored, dodrefn a galluogrwydd digidol. Roedd hefyd yn cefnogi sefydliadau yr effeithiwyd arnynt gan COVID-19 gan wneud gwaith megis gwella systemau awyru ac er mwyn prynu eitemau er mwyn gwella eu darpariaeth awyr agored.

Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru wedi addasu gweithdrefnau ymgynghori fel y gall staff a chleientiaid aros yn ddiogel drwy'r pandemig. Mae'r tîm yn cynnal hyfforddiant a grwpiau ar-lein, megis 'Deall Awtistiaeth' ar gyfer Oedolion Awtistig sydd newydd gael eu diagnosio.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i dderbyn canmoliaeth am ei waith ac wedi ei ganmol am y nifer o ddeilliannau 'stori bywyd' rhagorol a gyflwynwyd i WLGA am wneud gwahaniaeth i fywydau bob dydd Oedolion Awtistig.

Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth:

***"Heb orliwio, rydych wedi cynnig y cam cyntaf i mi ar lwybr cwbl newydd yn fy mywyd, ac rwyf yn sicr y byddaf yn diolch i chi eto yn y dyfodol am y llwyddiant yr wyf yn sicr y gallaf ei wireddu gan fod gennyf nawr well dealltwriaeth o bwy ydwyf, a phwy yr wyf wedi bod erioed."***

Er mwyn rhoi mwy o gymorth i unigolion Awtistig, mae gwefan Awtistiaeth Cymru (ASDinfoWales gynt) wedi cael ei lansio gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.

## Blaenoriaethau

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 fydd:**

**Datblygu mwy ar Brosiect SEARCH**

**Datblygu cyfleoedd i unigolion Awtistig gael mynediad i wasanaethau yn lleol.**

## Safon Ansawdd 5: Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

Mae Gwasanaethau plant yn parhau i weithio ar yr uchelgeisiau a nodir yn y Strategaeth Cymorth a Lleoli er mwy gweithio ar **leihau'n ddiogel nifer y plant sydd yn derbyn gofal a gwella deiliannau y rhai sydd yn derbyn gofal,** gyda nifer y ymyriadau wedi eu sefydlu, yn cynnwys:

- Y Tîm Cymorth wedi'i Dargedu
- Tîm Strategaeth Glasoed
- Mae Swyddogion Tîm Cymorth i Deuluoedd wedi sefydlu rhaglen gymorth bwrpasol, sydd yn cael eu monitro a'u hadolygu.
- Mae'r panel Coll Camfanteisio Masnachu yn cyfarfod er mwyn cadw plant yn ddiogel rhag cael eu masnachu, rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Camfanteisio'n Droseddol ar Blant a Llinellau Cyffuriau, ac mae'n darparu fforwm er mwyn dod â gweithwyr proffesiynol at ei gilydd neu er mwyn esgoli i asiantaethau perthnasol.
- Cymorth Taliadau Uniongyrchol i deuluoedd er mwyn rhoi dulliau ataliol ar waith.
- Cymorth i deuluoedd drwy'r Tîm o Gwmpas y Teulu a Chyfarfodydd Grŵp Teulu.

Derbyniodd **Canolbwynt Help Cynnar** (CHC) 2641 o atgyfeiriadau rhwng Ebrill 2020 a diwedd Mawrth 2021 ac mae'r tîm wedi addasu er mwyn bodoli anghenion yn ystod y pandemig. Newidiodd holl aelodau CHC yn gyflym i gynnal trafodaethau ar-lein ac addasodd asiantaethau yn dda yn ystod y cyfnod clo ac ni amharwyd ar gyfarfodydd. Arafodd atgyfeiriadau rywfaint n ystod Ebrill/Mai ond bu cynnydd eto ers Mehefin.

Ar ôl cynnydd mewn atgyfeiriadau yn **achos rhieni gydag anawsterau Iechyd Meddwl isel i gymedrol** yn yr CHC, mae gweithiwr penodol wedi cael ei gyflogi i weithio gyda rhieni er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad, cymorth 1:1 a chyfeirio at wasanaethau eraill sydd ar gael yn lleol, yn cynnwys y canolbwynt MI FEDRAF yn Y Fflint, a gwasanaethau iechyd meddwl statudol.



Mae'r gwasanaethau yn teimlo bod yna lawer i'w ddysgu o gyfnod COVID-19 ac y dylid parhau i weithredu ffyrdd gwahanol o gysylltu a chyfarfodydd rhithiol oherwydd bod staff yn teimlo bod hynny yn llai o straen ar deuluoedd.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran defnyddio'r **Rhaglen Gyllido Hyblyg** er mwyn ymateb i COVID-19. Cyllido Hyblyg yw'r ffordd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru sydd yn galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu ffordd fwy strategol o ddarparu ymyrraeth gynnar, ataliaeth a chymorth i deuluoedd.

Gyda'i gilydd, parhaodd partner asiantaethau i gefnogi plant a theuluoedd drwy sianeli digidol  a mabwysiadu dulliau newydd o fodloni anghenion teuluoedd a chefnogi eu gwytnwch.  Fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, cynhyrchwyd adroddiad 'Gwersi a Ddysgwyd' oedd yn myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig.  Hefyd, cyflwynwyd Cynllun Cyflawni addasedig i Lywodraeth Cymru oedd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer y Rhaglen o 1 Hydref 2020 i 31 Mawrth 2021.

Yn 2017 dechreuodd y Tîm Maethu weithio mewn partneriaeth gyda Y Lab drwy'r prosiect 'Arloesi i Arbed' er mwyn datblygu model allai ysgogi ffordd newydd o wneud pethau yn y gwasanaethau maethu. Mae **Model Teulu Mockingbird** yn efelychu teulu estynedig mewn 'Clystyrau' o 6-10 o aelwydydd maethu.

Mae'r Clwstwr yn cael ei gefnogi gan 'ofalwr Hwb' sydd yn darparu seibiannau cynlluniedig a brys, yn ogystal â chyngor, hyfforddiant a chymorth.

Mae'r model yn darparu profiad mwy 'normal' i blant maeth, yn cynnwys rhyngweithio gydag amrywiaeth mwy eang o blant ac oedolion dibynadwy, ac mae'n rhoi rhwydwaith cymorth ehangach i deuluoedd maethu. Mae hynny yn golygu bod lleoliadau yn dod yn fwy sefydlog oherwydd bod y plant a'r gofalwyr yn cael mwy o gymorth, gan leihau methiannau lleoliadau a'r angen am leoliadau brys costus a gofal preswyl.

Ar ôl camau profi, datblygu a dichonolrwydd, rhoddwyd £1.15 miliwn o gyllid arloesi i Sir y Fflint er wyn cyflwyno Mockingbird i 50 o deuluoedd yng Ngogledd Cymru. Mae gan brosiect Sir Y Fflint y potensial i arbed £2.4 miliwn dros chwe blynedd drwy arbed costau i'r Awdurdod Lleol.

Lansiwyd y Clwstwr cyntaf yn Sir y Fflint yn Ionawr 2020 sydd erbyn hyn yn cefnogi un gofalwr Hwb a chwe theulu arall sydd yn cynnwys chwech o blant sy'n derbyn gofal, un plentyn genedigol a dau berson ifanc mewn trefniadau 'Pan wyf yn Barod'.  Yn ystod y 12 mis diwethaf mae'r clwstwr wedi darparu amrywiaeth o:

- Seibiannau brys a chynlluniedig.
- Digwyddiadau gweithgareddau cymdeithasol misol.
- Cyfleoedd cymorth a hyfforddiant cymheiriaid i ofalwyr maeth.
- Cyswllt teulu a brodyr a chwiorydd.

Er eu bod yn bryderus am effaith COVID-19, mae'r teuluoedd dan sylw wedi canfod ffyrdd newydd o gyfathrebu er mwyn cadw mewn cysylltiad a chynnig cymorth i'w gilydd.

Lansiwyd yr ail glwstwr yn ddiweddar yn Chwefror 2021 ac mae'n cynnwys un Gofalwr Hwb a phum teulu arall sydd yn cynnwys wyth o blant sy'n derbyn gofal, 10 plentyn genedigol a dau berson ifanc sydd yn rhan o gynllun Pan wyf yn Barod'

Mae Sir y Fflint yn cynllunio pum Clwstwr ychwanegol erbyn diwedd 2022, fydd yn rhoi cymorth uniongyrchol i hyd at 80 o bobl ifanc a 50 o aelwydydd maethu.

Ers dechrau'r pandemig coronafeirws, mae rheolwyr a staff cartrefi gofal wedi gweithio'n ddiflino er mwyn cadw trigolion yn gorfforol iach a diogel, ond mae llesiant yn golygu llawer mwy na dim ond iechyd corfforol, ac un o agweddau mwyaf poenus y pandemig fu'r cyfyngiadau ar **ymweliadau wyneb yn wyneb â chartref gofal** gan deuluoedd ac anwyliaid.

Cofnododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru effaith sylweddol y cyfyngiadau yma yn ddiweddar, gan ddweud y bydd y 'trawma o fethu ag ymweld â pherthnasau mewn cartrefi gofal yn aros gyda phobl am flynyddoedd.'

O dan bolisi Llywodraeth Cymru, canslwyd ymweliadau â chartrefi gofal ym Mawrth 2020, er y caniatawyd ymweliadau diwedd oes beth bynnag fo'r cyfyngiadau lleol neu glo cenedlaethol. Mae cartrefi gofal lleol wedi gweithio'n galed i hwyluso ymweliadau awyr agored a ganiateir, gan wynebu'r her o gadw trigolion mewn cysylltiad gyda'u teuluoedd.

Mae hwyluso'r ymweliadau yma yr oedd eu mawr angen wedi golygu llawer iawn o gynllunio, ymdrech, arloesi a chreadigrwydd gan ein cartrefi gofal, a rydym yn eithriadol falch o'r hyn gaiff ei gyflawni yn Sir Y Fflint.

Roedd gwasanaethau yn falch o groesawu ymwelwyr yn ôl o 12 Mawrth 2021.



# Blaenoriaethau

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 fydd:

Parhau i weithio er mwyn lleihau'n diogel nifer y plant sydd mewn gofal a gwella deilliannau y rhai sydd mewn gofal

Parhau i gyflwyno model maethu Mockingbird

# Safon Ansawdd 6: Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael gwell llesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sydd yn bodloni eu hanghenion

Ym mis Ionawr 2020 cyflwynwyd Polisi newydd ar gyfer **'Addasiadau i Gartrefi Gofalwyr Maeth.'** Mae Sir y Fflint yn cefnogi gofalwyr maeth o ran gwneud addasiadau angenrheidiol i'w cartrefi er mwyn darparu gofod digonol i blant a phob ifanc fyw a ffynnu o dan eu gofal. Mae'r polisi hwn yn cefnogi'r gallu i leoli brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd, yn bodloni anghenion plant ag anableddau niferus, yn sicrhau mwy o gapasiti ar gyfer lleoliadau maethu presennol neu arfaethedig ac y bodloni gofynion iechyd a diogelwch fyddai fel arall yn arwain at symud plentyn.

Bydd yr arian grant yn ategu'r amrywiaeth presennol o gefnogaeth a ddarperir i ofalwyr maeth, ac mae'r arian yma yn gam arall ymlaen o ran sicrhau lleoliadau lleol a sefydlog i blant. Bydd ceisiadau am arian grant yn cael eu hystyried hyd at uchafswm o £36,000, gydag uchafswm grant o £20,000 ar gyfer ail-leoli i eiddo mwy addas. Er mwyn cael mynediad i'r grant, mae'n rhaid i'r gofalwyr a'r gweithiwr cymdeithasol fynd drwy'r holl opsiynau ac adnoddau eraill i gynyddu capasiti yn y lleoliad.

Mae'r grant nid yn unig ar gael i ofalwyr maeth cymeradwyedig, ond mae hefyd ar gael i eraill yn cynnwys teuluoedd presennol neu arfaethedig sydd yn mabwysiadu, teuluoedd a ffrindiau / gofalwyr plant sydd yn destun Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig a gofalwyr sydd yn ymrwymedig i'w rôl gofalu am y tymor hir, neu o leiaf nes bod y plentyn yn cyrraedd 18 oed.

Bu i Theatr Clwyd a Chyngor Sir Y Fflint ac aelodau'r gymuned leol wneud galwad cyhoeddus am roddion ar ffurf **bocsys esgidiau llawn hwyl**, anrhegion lliwgar er mwy gwneud y byd yn lle mwy disglair i berson ifanc yn Sir Y Fflint.

Diolch i'r apêl, bu i'r cyhoedd roddi dros 300 o focsys esgidiau dros ddau ddiwrnod, ac erbyn hyn maent wedi cael eu dosbarthu gan Gyngor Sir Y Fflint i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn y sir.

Datblygwyd **Llys yr Iarll** gan Gymdeithas Tai Wales and West mewn partneriaeth â'r Cyngor, ac fe'i cwblhawyd yn ystod hydref 2020, er mwyn darparu llety i oedolion ag anableddau dysgu, Awtistiaeth ac anableddau corfforol.  Mae'r datblygiad yn cynnwys 12 rhandy unigol sydd yn addas ar gyfer byw yn annibynnol, a phan fo angen cymorth, mae rhandy dwy ystafell wely yn galluogi i ofalwyr gyd-fyw.

Mae gan y Cyngor hawl enwi ar gyfer y pedwar rhandy ar y llawr isaf, ac mae dau ohonynt yn fariatrig ac mae dau wedi cael eu haddasu ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'r wyth rhandy 'anghenion cyffredinol' arall yn cael eu cadw gan Gymdeithas Tai Wales and West. Bu i un o'r trigolion newydd godi ei bawd a dweud 'Mae'n wych, rwyf wrth fy modd yma'. Dywedodd ei mam hefyd pa mor dda mae ei merch yn setlo, a hynny yn llawer gwell na fyddent wedi ei ddisgwyl.

Dywedodd un arall o'r trigolion,

***"Roeddwn i ychydig yn nerfus i ddechrau, ond erbyn hyn rwyf wedi arfer ac rwyf yn hoffi fy nghymdogion, sydd hefyd yn***

***ffrindiau i mi. Rwyf yn hoffi'r faith bod y gwaith dim ond dros y ffordd. Rwyf hefyd yn hoffi'r ffaith na all fy mam swnian arnaf i dacluso drwy'r amser oherwydd fy mod nawr yn fy fflat fy hun.'***

Mae **Tŷ Glan y Morfa** yn llety camu i fyny / camu i lawr dros dro a rennir i bobl sydd ag anabledd corfforol. Gall y bobl gaiff fynediad i'r Tŷ fod yn ddigartref, neu fethu â dychwelyd gartref dros dro oherwydd bod addasiadau cynlluniedig yn cael eu gwneud i'w cartref presennol. Yn ystod eu cyfnod yn y tŷ, bydd yr unigolion yn cael cymorth i wella eu llesiant a'u hannibyniaeth, fel eu bod yn gallu byw mor annibynnol â phosibl pan fyddant wedi dychwelyd i'w llety eu hunain neu lety mwy parhaol. Mae hon yn fenter ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Tai ac fe'i dechreuwyd yn Chwefror 2021.

Agorodd Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a Chymdeithas Tai Wales and West bedwerydd cynllun gofal ychwanegol yn Nhreffynnon, Cynllun Gofal Ychwanegol Plas yr Ywen, ar 22 Mawrth 2021, gan groesawu ei denantiaid cyntaf.

Mae'r cynllun gofal ychwanegol ym Mhlas y Wern, sydd yn werth £8.5 miliwn, yn cynnig 55 o randai un a dwy ystafell wely i bobl 50 oed a hŷn yn Sir y Fflint sydd angen gofal a chymorth.

Bydd y cynllun yn dilyn y model 'tai â gofal 'llwyddiannus, gyda thîm cymorth a gofal ar y safle ac amrywiaeth o gyfleusterau er mwyn hyrwyddo a chefnogi byw yn annibynnol. Hefyd, bydd yno saith rhandy ar ei lawr cof er mwyn cefnogi unigolion â dementia neu sydd wedi colli eu cof.

Mae Plas yr Ywen yn elwa o system ddigidol glyfar sydd yn cynnwys larwm argyfwng digidol, galwadau llais a fideo, mynediad drws fideo, galluogrwydd teleofal a chysylltedd cartref clyfar. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen fydd yn galluogi i unigolion gael eu grymuso mwy o fyw bywydau annibynnol a chyflawn drwy gyfuniad o gefnogaeth a thechnoleg.

Gan gofleidio'r arloesol, mae cwmni adeiladu Willmott Dixon a Cyngor Sir Y Fflint ar darged i gwblhau estyniad sylweddol i **Gartref Gofal Tŷ Marleyfield** yn Mwcle.

Bydd y prosiect ailddatblygu £8.4 miliwn yn dyblu nifer y gwelyau yn Nhŷ Marleyfield o 32 i 64, ac yn cynyddu gofodau awr agored cymunedol a hygyrchedd er mwyn cefnogi llesiant trigolion, gan gadarnhau ymrwymiad y Cyngor i wasanaethau o ansawdd, a buddsoddi arian mewn gwasanaethau critigol.

Bydd gan bob ystafell ofod awyr agored personol ar ffurf balconi ar y llawr cyntaf neu batio ar y llawr isaf, tra bydd yr estyniad yn creu ardaloedd cymunol newydd, cyfleusterau meddygol, swyddfeydd ac ystafelloedd storio, cyfleusterau parcio estynedig a thirlunio sensitif helaeth.

Mae hon yn enghraifft o ddull rhagweithiol yr awdurdod lleol o fynd i'r afael â phwysau a bregusder sylweddol presennol yn y sector gofal ledled y sir, a byd y prosiect yn cael ei gwblhau yn haf 2021 gan fod y gwaith wedi mynd yn ei flaen yn ystod heriau'r pandemig byd-eang.

Yn ystod COVID-19, aeth y cartref i gyfnod clo ac addasodd Willmott Dixon ei ymarferion adeiladu er mwyn sicrhau bod y safle wedi ei wahanu oddi wrth y cartref presennol bob amser. Roedd hynny yn cynnwys mynediad safle penodol, adeiladu mwy o lefydd parcio ar gyfer y cartref a danfon nwyddau.

Er mwyn parhau i wella darpariaeth cartrefi gofal y Cyngor, cytunwyd i edrych ar ddichonolrwydd datblygu cartref gofal preswyl newydd ar hen safle ysbyty Cymunedol y Fflint. Bydd gan yr adeilad hwn tua 55 o




welyau a bydd yn cynnwys symud trigolion o gartref gofal preswyl Croes Atti i'r adeilad newydd.

Bydd y prosiect mewn partneriaeth agos â chydweithwyr iechyd er mwyn bodoli rhai o anghenion iechyd y gymuned a chynyddu capasiti yn sector gofal preswyl mewnol Sir y Fflint.  Amcanir y bydd yr astudiaeth dichonolrwydd wedi ei chwblhau erbyn dechrau haf 2021.

Yn dilyn y gwaith dichonolrwydd, bydd gwerthusiad opsiynau yn cael ei gwblhau ar gyfer y cyngor er mwyn ystyried pa opsiwn fydd yn bodloni anghenion yr awdurdod a thrigolion Sir y Fflint orau. Ar ôl cytuno ar opsiwn, amcanir y bydd yr adeilad yn cael ei gwblhau yn 2023.

Bydd dull cyffelyb i Marleyfield a Chroes Atti yn cael ei ddefnyddio maes o law yn Llys Gwenffrwd yn Nhreffynnon. Bydd y Cyngor yn ystyried a oes angen safle newydd neu a ddylid gwneud gwelliannau i'r safle presennol.

Mae Gwasanaethau Plant yn parhau i weithio gyda Thai drwy Wasanaeth Pobl Ifanc Integredig ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn, a chyflogwyd dau swyddog i **gefnogi pobl ifanc ddigartref,** neu deuluoedd sydd angen mwy o gymorth. Mae swyddog arall yn gweithio yn yr adran tai er mwyn cefnogi pob ifanc 18+ oed.

Bydd teuluoedd yn cael eu cefnogi i gadw'r person ifanc yn y cartref neu i gael symudiad cynlluniedig neu dan reolaeth sydd yn cynnwys asiantaethau eraill, megis Byw â Chymorth, hosteli a'r prosiect Cei. Yn ystod yr amser hwn gall y gwasanaeth IYPS ddarparu cymorth emosiynol er mwy sicrhau bod pobl ifanc yn ddiogel a bod eu llesiant yn cael ei wella. Mae angen sicrhau arian er mwyn cefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth hwn.

Bydd **Canolfan Asesu Preswyl Plant** yn darparu asesiad preswyl tymor byr (hyd at 20 wythnos) a darpariaeth cymorth i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Bydd y ganolfan yn rhoi'r amser a'r lle i ymgymryd ag asesiad dwys a cymorth er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc tra'n ceisio ailuno teuluoedd, neu leoliad maeth/preswyl mwy hirdymor.

Bydd y ganolfan yn gallu gwasanaethu hyd at wyth o blant neu bobl ifanc ar unrhyw adeg yn y tri adeilad, yn cynnwys lleoliadau brys. Bydd tîm y staff yn cael eu hyfforddi mewn Therapi Amlsystemig (MST). Fel yr amlinellwyd yn Safon Ansawdd 1, mae MST

yn ymyrraeth glinigol teuluol a chymunedol ddwys ar gyfer plant a phobl ifanc 11-17 oed, pan fo pobl ifanc yn wynebu risg o gael eu lleoli y tu allan i gartref mewn gofal neu gystodaeth.  Mae timau MST yn canolbwyntio ar fyd cyfan y person ifanc - eu cartrefi a'u teuluoedd, ysgolion ac athrawon, cymdogaethau a ffrindiau. Mae staff MST yn mynd i ble mae teuluoedd yn byw ac yn gweithio gyda nhw yn ddwys am dri neu bedwar mis, yn cynnwys bod ar alw i deuluoedd 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Bydd Cyngor Sir Y Fflint yn cymryd perchnogaeth ar yr adeilad erbyn diwedd Mawrth 2021 ac yna bydd yn mynd allan i dendr er mwyn penodi contractwr i ymgymryd â'r gwaith adnewyddu. Rhagwelir y bydd y gwaith o adnewyddu'r tri eiddo wedi ei gwblhau'n llanw erbyn hydref 2022.

Er mwyn rhoi mwy o gymorth i blant, mae'r Cyngor yn edrych i sefydlu **cartrefi cofrestredig bychan,** sydd yn cefnogi un neu ddau o blant.  Mae gan y model deimlad cymunedol a theuluol cryf er mwyn cefnogi plant fyddai'n llwyddo mewn sefydliad llai gyda lefelau mwy dwys o gymorth.  Mae'r model hwn yn cael ei ddarparu'n llwyddiannus mewn meysydd eraill yn y DU a bydd yn cael ei addasu ar gyfer Sir y Fflint. Bwriedir i'r cartref bychan cyntaf o ddau fod yn weithredol yn ystod 2021/22.



# Blaenoriaethau

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 fydd:

Cwblhau Rhaglen Gofal Ychwanegol

Bwrw ymlaen â chynlluniau i ymestyn gofal preswyl mewnol

Lansio gwasanaeth preswyl tymor byr er mwyn hysbysu'r lleoliadau symud ymlaen mwyaf priodol a phecyn cymorth i bobl ifanc

Datblygu'r cynllun 'Cartrefi Bychan' i blant

Adran 5

# Sut Ydym yn Gwneud Beth Ydym yn Ei Wneud



## 5.1 Ein Gweithlu a Sut Ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Mae busnes craidd y Tîm Datblygu Gweithlu yn eang ac yn cynnwys dull cynlluniedig ac adweithiol o gefnogi anghenion hyfforddiant y gweithlu gofal cymdeithasol.

Unwaith eto mae'r cyfeirlyfr hyfforddiant blynyddol wedi cael ei ddatblygu yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o ddadansoddiad o anghenion gan gydweithwyr yn yr adran a gan ddarparwyr Gofal allanol; wedi ei adolygu yn erbyn y fframweithiau cymhwyster newydd; a thrwy werthuso cyrsiau blaenorol. Mae'r cyrsiau yn cael eu darparu drwy ddarparwyr mewnol ac allanol, ac eleni, yn fwy nag erioed o'r blaen, cryfhawyd partneriaethau er mwyn bodloni a goresgyn yr heriau y mae'r pandemig wedi eu cyflwyno.

Er gwaetha'r heriau y mae'r 12 mis diwethaf wedi eu cyflwyno, mae'r tîm wedi cyflawni llawer iawn:

- Wedi llwyddo i symud nifer o gyrsiau hyfforddi i amrywiaeth eang o blatfformau
- Hwyluso 313 o sesiynau hyfforddi ar 87 o destunau.
- Datblygu rhaglen hyfforddiant anwytho i wirfoddolwyr a 'recriwtiwyd fel rhan o'r ymateb i COVID-19.  Cwblhawyd hynny gan 77 o wirfoddolwyr, ac aeth y rhan fwyaf ohonynt ymlaen i wirfoddoli i'r Cyngor yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig.
- Parhau  weithio mewn partneriaeth gyda nifer o ddarparwyr hyfforddiant mewnol ac allanol sydd yn garedig yn cynnig hyfforddiant i ni am ddim.
- Mewn partneriaeth â Chymunedau ar gyfer Gwaith, mae 'Llwybrau i Ofal Cymdeithasol' wedi cael ei gynnig yn rhithiol.  Mae'r rhaglen ddwys a chynhwysfawr hon yn darparu llwybr i bobl ddi-waith i weithio ym maes gofal cymdeithasol, ac mae hynny wedi ei alinio'n agos â'r Fframwaith Anwytho Cymru Gyfan ac at ddibenion cofrestru ar gyfer staff ategol.
- Darparwyd y Cynllun Talebau Hyfforddiant mewn ffordd ddiwygiedig eleni, er mai cyfyngedig iawn oedd y cyfleoedd i ddefnyddio'r talebau.
- Hyfforddwyd nifer o Hyrwyddwyr Digidol, gan rannu ystod eang o wybodaeth gan Cymru Ddigidol.
- Dyfeisio a darparu rhaglen o addysgu a dysgu ar gyfer  cymwysterau craidd mewn gofal cymdeithasol sydd yn addas i'r diben ac sy'n bodloni gofynion y corff dyfarnu.

- Cafodd y Ganolfan adroddiad Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd cadarnhaol iawn ar yr ymweliad o bell yn Nhachwedd 2020
- Cefnogi 38 o fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol yn y sectorau statudol, annibynnol a gwirfoddol eleni ledled Gogledd Cymru. Mae 16 o Weithwyr Cymdeithasol wedi cwblhau eu gwobr Cyfuno sydd yn eu galluogi i ail-gofrestru yn ystod eu cyfnod cyntaf o ymarfer ar ôl cymhwyso, sydd erbyn hyn yn un o ofynion Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Mewn ymateb i adborth gan reolwyr mewnol ac allanol, mae’r tîm wedi datblygu ‘rhaglen anwytho’ o hyfforddiant mandadol y mae aelodau newydd yn gallu ei chwblhau mewn cyfnod o 3 wythnos, sydd yn eu galluogi i gwblhau nifer o gymwyseddau sydd yn hanfodol er mwyn darparu gofal o ansawdd.

Y tu ôl i’r llenni, mae adran TG y Cyngor wedi chwarae rôl allweddol o ran cefnogi gwaith parhaus y Gwasanaethau Cymdeithasol gan ymgymryd â gwaith sylweddol er mwyn **sicrhau bod staff yn gallu gweithio o bell** ac nad amharwyd ar wasanaethau gan ffyrdd newydd o weithio. Mae’r tîm wedi:

- Ymchwilio i ac wedi sefydlu cyfleusterau Cynadledda Fideo ar gyfer 780 o bobl sydd yn gweithio ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Ymateb i  140 o archebion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol am offer TG newydd, yr angen llawer ohono ar gyfer newid i weithio o gartref.
- Ymateb i 400 o geisiadau am docynnau mynediad o bell
- Ymchwilio i a rhoi datrysiad eLofnod ar waith ar gyfer y Gwasanaeth Maethu er mwyn lleihau’r angen am gyswllt wyneb yn wyneb.
- Darparu dulliau amgen o ymgysylltu â defnydd cleientiaid o WhatsApp ac wedi defnyddio hynny ar ffonau gweithwyr cymdeithasol
- Wedi rhoi 39 o iPads wedi eu hailgylchu i ddefnyddwyr gwasanaeth yn Hwb Cyfle
- Darparu cyfleusterau teleffoni i staff canolfan gyswllt Gofal Cymdeithasol er mwyn eu gweithredu o gartref
- Datblygu amrywiaeth o ffurflenni ar-lein yn cynnwys gwelliannau i’r ddarpariaeth Gofal Plant a gwerthusiadau llesiant

Mewn ymateb i heriau recriwtio parhaus ac anawsterau o ran **recriwtio gweithwyr cymdeithasol,** cytunwyd i ddefnyddio dull gwahanol o recriwtio gweithwyr cymdeithasol a datblygwyd llwybr newydd ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol er mwyn ymuno â thimau.  Roedd y llwybr yma yn creu cysylltiad rhwng eu haddysg prifysgol a’r flwyddyn gyntaf o ymarfer.  Digwyddodd hynny i gyd yn ystod y pandemig wedi ei ategu gan gynllun anwytho cadarn, yn cynnwys sesiynau grŵp rhithiol wythnosol ble roedd yna le ar gyfer cymorth cymheiriaid, trafodaeth a dysgu.

Mae **prosesau anwytho** ar gyfer Gweithwyr cymdeithasol sydd yn ymuno â Gwasanaethau plant wedi cael eu hatgyfnerthu drwy bartneriaeth gyda Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol (GGC). Mae GGC yn borth ar-lein sydd wedi ei hen sefydlu ar gyfer staff gofal cymdeithasol sydd yn gweithio â phlant a theuluoedd, sydd yn dal cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau er mwyn cefnogi eu hymarfer.

Mae prosesau anwytho ar gyfer Gweithwyr cymdeithasol sydd yn ymuno â Gwasanaethau plant wedi cael eu hatgyfnerthu drwy bartneriaeth gyda Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol (GGC).

Mae GGC yn borth ar-lein sydd wedi ei hen sefydlu ar gyfer staff gofal cymdeithasol sydd yn gweithio â phlant a theuluoedd, sydd yn dal cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau er mwyn cefnogi eu hymarfer.

***“Rwyf wedi cael fy mendithio gyda fy mhrofiad o weithio i Sir y Fflint.  Rwyf wedi bod mewn dau dîm, TAF a’r Tîm Cymorth wedi’i Dargedu. Mae’r dau dîm wedi rhoi cymorth enfawr i mi fel gweithiwr newydd a ddechreuodd arni yn ystod COVID-19 ac fel gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso, roeddent yn gynnes o groesawgar.”***

Mae Cymunedau ar gyfer Gwaith yn gweithio mewn partneriaeth a Thîm Datblygu Gweithlu Cyngor Sir Y Fflint er mwyn parhau i ddarparu'r rhaglen hyfforddiant 'Llwybr i Ofal Cymdeithasol'.

Mae'r rhaglen hon yn rhoi cyfle i bobl leol gael y sgiliau a'r hyfforddiant sydd ei angen i weithio ym maes Gofal Cymdeithasol, gan ddarparu gofal a chymorth i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mae'r hyfforddiant, fydd yn cael ei gynnal yn rhithiol, yn cynnwys hyfforddiant achrededig ar amrywiaeth o bynciau yn cynnwys; cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch a rheoli haint, diogelwch bwyd a diogelu. Ar ddiwedd y rhaglen bydd cyflogwyr gofal cymdeithasol ar gael i ddarparu gwybodaeth am swyddi gwag y gall y cyfranogwyr ymgeisio amdanynt.

Mae'r Cyngor hefyd wedi cychwyn ar daith gyffrous er mwyn herio a newid eu prosesau recriwtio traddodiadol er mwyn recriwtio pobl sydd â'r gwerthoedd priodol i swyddi gofal cymdeithasol.

Mae ymgyrch Gofalwn Cymru yn nodi bod 'Cymru angen tua 20,000 yn fwy o bobl i weithio ym maes gofal erbyn 2030', ac er mwyn bodloni'r galw hwnnw, mae angen gwneud mwy i arddangos a hyrwyddo gwaith gofal fel gyrfa foddhaus.

Mae tîm bychan o swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael eu hyfforddi gan Helen Sanderson Associates a Thimau Llesiant mewn **Recriwtio Seiliedig ar Werthoedd**, ac ers hynny maent wedi bod yn gweithio ar ddatblygu eu dulliau newydd eu hunain o recriwtio pobl i faes gofal cymdeithasol.

Mae ein gwerthoedd a'r credoau yn gyrru'r ffordd yr ydym yn ymddwyn, ac mae pobl yn tueddu i ffynnu mewn mannau ble maent yn gallu dangos eu gwerthoedd. Roedd angen i Wasanaethau Cymdeithasol ddeall eu gwerthoedd eu hunain cyn y gallent chwilio am y gwerthoedd hynny mewn pobl eraill, ac erbyn hyn maent yn edrych i recriwtio pobl sydd yn rhannu gwerthoedd y gwasanaethau.

Cyn COVID-19, dechreuodd Cyngor Sir Y Fflint ar gyfres o ddiwrnodau recriwtio gyda ffocws ar annog cyfranogwyr i ddangos y gwerthoedd sydd yn arwain eu bywydau. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys ymarferion tîm, gwrando a chyfathrebu a senarios 'beth petai'. Am ran o'r diwrnod, roedd yr ymgeiswyr hefyd yn cael te prynhawn gyda phobl yr oeddent efallai yn rhoi gofal a chymorth iddynt. Mae'r gweithdai yn cael eu goruchwylio gan staff ac unigolion sydd yn derbyn gwasanaethau, fydd yn edrych am y ffyrdd y mae'r ymgeiswyr yn rhyngweithio ag unigolion ac yn dangos eu gwerthoedd personol.
Mae dros 20 o weithdai ar gyfer gofal a chymorth uniongyrchol wedi cael eu cynnal, gan benodi dros 60 o bobl ledled y gwasanaethau, ac mae rhai ohonynt wedi dod o rolau gofal blaenorol, ac eraill nad ydynt wedi cael dim profiad o ofal ond a oedd eisiau gwneud gwahaniaeth.

Mae adborth gan ymgeiswyr wedi bod yn gadarnhaol, a rhai yn dweud eu bod wedi cael 'y cyfweliad gorau erioed' ac nad oeddent yn 'teimlo eu bod mewn cyfweliad'. Roedd yr ymgeiswyr yn mwynhau cyfarfod y tenantiaid, ac yn gadael â theimlad eu bod yn gwybod mwy am y rôl.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos gydag **ymgyrch** Gofalwn Cymru gan hyrwyddo cyfleoedd i weithio ym maes gofal cymdeithasol yn ystod wythnos WeCare Cymru yn Nhachwedd 2020. Mae'r ymgyrch hefyd wedi ail-lansio eu porth swyddi, ble gall darparwyr ledled Cymru hysbysebu swyddi gwag am ddim a gall ymgeiswyr chwilio am swyddi gofal cymdeithasol yn eu hardal.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn brofiad anodd ac emosiynol yn aml.  Mae **Care First** yn Wasanaeth Cymorth i Weithwyr sydd ar gael i weithwyr y Cyngor, sydd yn hyrwyddo cymorth emosiynol ac ymarferol mewn perthynas â materion yn y gwaith ac adref. Mae'r gwasanaethau ar gael ar-lein, a thrwy rif Rhadffôn 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Mae pob galwad yn cael ei hateb gan gwnselydd Gofal yn Gyntaf, sydd wedi eu hachredu gan Gymdeithas Cwnsela  a Seicotherapi Prydain ac mae cymorth ar gael yn yr Iaith Gymraeg drwy wasanaeth cyfieithu os oes angen. Yn dilyn asesiad gan gwnselydd  dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu ar-lein, efallai y bydd cwnsela CBT yn cael ei awgrymu. Yng Ngorffennaf 2020, estynnodd y Cyngor fynediad i Ofal yn Gyntaf i holl staff darparwyr gofal y sector annibynnol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda Mind yng Ngogledd Ddwyrain Cymru er mwyn darparu cymorth ychwanegol i weithwyr gofal cymdeithasol. Hefyd, roedd wybodaeth, therapïau siarad a gweithgareddau a ddyluniwyd i gefnogi llesiant yn ystod yr amser anodd yma ar gael.

Mae cyflenwad effeithiol o **Offer Amddiffyn Personol** (OGP) wedi bod yn rhan allweddol o daclo COVID-19 yn lleol. Enwyd Gwasanaeth Offer Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCES)  yn ystod camau cyntaf y pandemig fel y prif blatfform ar gyfer dosbarthu darpariaeth Llywodraeth Cymru o Offer Amddiffyn Personol (OGP) yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Dechreuodd gwaith paratoi ym Mawrth 2020 er wyn addasu NEWCES ym Mhenarlâg er mwyn ymdopi â rheoli stoc ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam.  Cyrhaeddodd y cyflenwad cyntaf o OGP ar 24 Mawrth 2020 ac fe'i dosbarthwyd o fewn dyddiau er mwyn amddiffyn staff gofal ledled Sir y Fflint.

Wrth i lefelau stoc a galw gynyddu'n sylweddol, cafwyd cymorth gwerthfawr gan wirfoddolwyr a roddodd eu hamser eu hunain i ddosbarthu'r pecynnau OGP i dros 80 o leoliadau bob wythnos ledled Sir Y Fflint.

Ni allai'r gofod a neilltuwyd ym Mhenarlâg ymdopi â swm y stoc oedd yn dod i mewn, felly agorwyd ail uned. Tri diwrnod yn ddiweddarach, yn dilyn gwaith heriol, roedd y storfeydd newydd yn weithredol.

Ers i'r gwasanaeth ddechrau ym Mawrth y llynedd, yn Sir y Fflint rydym wedi rhoi tua:

- 2.5 miliwn o ffedogau
- 4 miliwn o fenig
- 3.5 miliwn o fygydau
- 60,000 o fisorau

Roedd Tîm Logisteg Byddin Prydain yn ymweld â'r holl safleoedd dosbarthu ledled Cymru er mwyn rhoi cyngor, arweiniad a chefnogaeth.  Derbyniodd NEWCES adroddiad gloyw a dim argymhellion allweddol. Bu i Dîm y Fyddin hyrwyddo systemau a dulliau Sir y Fflint mewn



ardaloedd eraill yng Nghymru, ac arweiniodd hynny at gyflwyno ein systemau gwaith i Awdurdodau eraill.

Mae NEWCES yn falch o fod wedi cysylltu â Prosiect SEARCH, ac mae wedi croesawu Owen i Dîm NEWCES. Mae Owen yn ymwneud â rhwng flaen gwasanaeth Canolbwynt OGP, ym mhob agwedd o reoli stoc a dosbarthu stoc i Wasanaethau Cymdeithasol Wrecsam, ac mae'n gaffaeliad i'r tîm.

Canmolwyd staff NEWCES:
"...Maent wedi bod yn rhagorol o ran rhoi cefnogaeth. Ni allent fod yn fwy cefnogol. Mae cyflenwadau yn gyflym a chywir. Os bydd problem yn codi maent yn gefnogol iawn o ran datrys problemau."

Hefyd roedd cyflenwad bach o offer ar gael gan Breswylfa yn yr Wyddgrug, ellid ei ddosbarthu'n gyflym i ble roedd ei angen fwyaf.

Dechreuwyd **recriwtio gwirfoddolwyr** ar ddechrau mis Ebrill, a ddechreuwyd gan gydweithwyr yn FLVC. Yng nghanol Ebrill, trosglwyddydd FLVC grŵp o tua 70 o wirfoddolwyr i'r Tîm Defnyddio Gwasanaethau Cymdeithasol.
Roedd y Tîm Datblygu Gweithlu, gyda chefnogaeth FLVC, yn darparu peth hyfforddiant sylfaenol i wirfoddolwyr, mewn perthynas â diogelu, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch, cydsynio, diogel data, urddas, egwyddorion gofal a chyfrinachedd. Erbyn diwedd Ebrill 2020, yn dilyn yr hyfforddiant a gwiriadau DBS angenrheidiol, roedd grŵp o 64 o wirfoddolwyr ar gael i wirfoddoli ledled y sir.

Rhoddodd y grŵp gwirfoddoli gymorth o Ebrill i Awst i nifer o weithgareddau a mentrau yn cynnwys dosbarthu OGP ddwy waith yr wythnos i staff mewn cartrefi pobl hŷn a darparwyr yn y cartref ac ysgolion, dosbarthu siopa yn wythnosol i ddau Gartref Byw â Chymorth, dosbarthu wyau siocled a roddwyd, cymorth 1:1 dros y ffôn, prosiect Well Fed a dosbarthu parseli Banc Bwyd; a dosbarthu Ipads a Chylchlythyr Chwarterol Codgers er mwyn lleihau arwahanrwydd mewn sefydliadau gofal. Roedd gwirfoddolwyr hefyd yn cefnogi agor cartref gofal Tŷ Treffynnon, a chludo gweithiwr i weithio shifftiau mewn cartref gofal y sector annibynnol.

Ym mis Awst, gyda nifer o weithgareddau gwirfoddoli naill ai wedi eu rhewi neu eu lleihau yn sylweddol, trosglwyddwyd y gwaith o gydlynu'r grŵp gwirfoddol i dîm cydlynu trydydd sector FLVC. Mae'r tîm Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod mewn cysylltiad agos â FLVC er mwyn cydweithredu ar unrhyw weithgareddau gwirfoddoli yn y dyfodol.

Bu nifer o ddatblygiadau **digidol.** Mae System Reoli Cyswllt wedi cael ei datblygu yn ein system Paris er mwyn dal manylion darparwyr, sydd â gwybodaeth contract ac a storir yn gyfrinachol.

Mae Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir Y Fflint wedi lansio Hafan Taliadau Uniongyrchol newydd. Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys gwybodaeth ar beth yw Taliadau Uniongyrchol ynghyd â gwybodaeth ar sut mae defnyddio Cymhorthydd Personol (PA) a dolenni defnyddiol eraill

Mae Porth Cymhorthydd Personol newydd hefyd yn darparu cofrestr o Gymorthyddion Personol (PA) sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer derbynyddion Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint. Mae'r gofrestr yn amcanu at helpu dinasyddion a'u teuluoedd i chwilio am PA ac i ganfod y PA gorau iddyn nhw, ond hefyd i helpu Pas i ganfod cyflogaeth addas yn y sector yma sydd yn tyfu ac yn rhoi boddhad.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i symud ymlaen i weithredu modiwl cyllid System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Bydd y system yn gwella'r ffordd yr ydym yn gallu talu i ddarparwyr gofal cymdeithasol.

# 5.2 Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Ydym yn Cynllunio i'r Dyfodol

Mae'r Swyddog Datblygu Gwerthoedd Cymdeithasol wedi gweithio gyda phartneriaid ar gynhyrchu fideo er mwyn egluro beth yw Gwerthoedd Cymdeithasol a sut mae'r Cyngor yn edrych i gael y gwerth gorau i dinasyddion lleol, o bob punt y mae'r cyngor yn ei wario.

Cymeradwywyd y Polisi Caffael Gwerth Cymdeithasol gan y cabinet ym Mawrth 2020, ac i ategu hynny, mae system newydd, IMPACT, wedi cael ei chyflwyno er mwyn cefnogi'r gwaith o fesur, monitro ac adrodd ar ddeilliannau gwerth cymdeithasol. Mae hynny yn cynorthwyo cyflenwyr i adrodd yn chwarterol ar eu hymrwymiadau mewn perthynas â gwerth cymdeithasol. Bydd cynhwysiant IMPACT n rhan o'r broses gaffael yn y dyfodol.

Erbyn hyn mae gwefan gwerth cymdeithasol y Cyngor yn fyw er mwyn hyrwyddo deilliannau y ffrwd gwaith yma drwy fideos rhyngweithiol, astudiaethau achos, digwyddiadau a blogiau. Bydd y wefan hefyd yn cefnogi staff y Cyngor, cyflenwyr presennol y Cyngor a busnesau allanol eraill gyda mwy o ddealltwriaeth o werth cymdeithasol, Polisi Gwerth Cymdeithasol y Cyngor, proses gaffael a'r System Adrodd ar Effaith.

Mae'r cyngor yn parhau i gefnogi Mentrau Cymdeithasol sydd yn gysylltiedig â **swyddogaeth llesiant** sydd yn cyfrannu at y sector gwerth cymdeithasol fel y diffinnir hynny gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r grwpiau yma wedi cael cymorth i gydymffurfio â COVID-19 fel y gallant weithio ar ail-agor.

Datblygodd y **Cyngor Strategaeth Adferiad Corfforaethol** ar gyfer sefyllfa argyfwng y pandemig. Roedd y strategaeth yn cynnwys y canlynol:

- Cronoleg y cam ymateb i argyfwng a phontio i adferiad
- Trefniadau pontio ar gyfer adferiad
- Adferiad sefydliadol y Cyngor
- Adferiad cymunedol y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu
- Blaenoriaethau strategol a pherfformiad y Cyngor am weddill 2020/21
- Y rolau bydd y Cyngor yn eu chwarae mewn adferiad rhanbarthol
- Llywodraethu adferiad yn ddemocrataidd

Wedi ei alinio â'r strategaeth hon, datblygodd y Gwasanaethau Cymdeithasol Gynllun Adfer, gan nodi'r amcanion a'r amserlen ar gyfer adferiad gwasanaethau, unrhyw risgiau a'u camau lliniaru cynlluniedig, ein cyfraniad at unrhyw flaenoriaethau strategol y Cyngor ar gyfer 2020/21, a dangosyddion perfformiad er mwyn mesur faint o gynnydd yr ydym yn ei wneud tuag at adferiad llawn.

Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn edrych ar sut y gall ffyrdd newydd o weithio barhau i gael eu hymgorffori, sydd wedi arwain at ddefnydd effeithlon o amser ac wedi cyfrannu at lai o ôl-troed carbon.

Mae **Cronfa Gofal Integredig** Llywodraeth Cymru (CGI) wedi cefnogi'r broses o ddarparu prosiectau refeniw a chyfalaf o dan bedwar thema strwythuredig:

- Ymyrraeth gynnar
- Anableddau Dysgu, Plant ag Anghenion Cymhleth a Gofalwyr
- Pobl Hŷn
- Cynllun Gweithredu Dementia

Er bod y rhaglen CGI i fod i ddod i ben ym Mawrth 2021, mae Gweinidogion wedi cytuno ar estyniad o 12 mis tan Mawrth 2022. Bydd hynny yn caniatáu amser i ddatblygu dull newydd o ddefnyddio adnoddau rhanbarthol

yn barod ar gyfer Ebrill 2022. Bydd cwmpas a maint yr adnoddau yn y dyfodol ar gyfer y tair thema yma - Ymyrraeth Gynnar, Anableddau Dysgu, Plant ag Anghenion Cymhleth a Gofalwyr, a Phobl Hŷn - yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses hon. Bydd thema'r Cynllun Gweithredu Dementia yn cael cyllid cylchol, ond bydd yn destun gwerthusiad parhaus er mwyn hysbysu cynnwys cynlluniau gweithredu i'r dyfodol a deilliannau canlyniadol hynny.

Gweithiodd Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint gyda darparwyr gofal a'r gweithlu mewnol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau wedi eu paratoi yn dda ar gyfer **Brexit.** Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda darparwyr gofal er mwyn rhannu gwybodaeth ynghylch paratoadau Brexit a chynllun Statws Sefydlog yr UE. Hefyd paratowyd Cynlluniau Parhad Busnes a rhannwyd gwybodaeth ar baratoadau busnes mewn perthynas â dyfeisiau meddygol, nwyddau clinigol treuliadwy, bwyd a meddyginiaeth.

# 5.3 Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethiant ac Atebolrwydd

## Pwy ydym ni

Mae Aelodau Etholedig yn cynrychioli trigolion Sir y Fflint ac yn chwarae rôl bwysig o ran llywodraethiant y Cyngor. Maent yn cytuno ar flaenoriaethau'r Cyngor ac yn cymeradwyo polisïau er mwyn cyflawni ei welliannau parhaus. Mae gan Gyngor Sir y Fflint 70 o Aelodau Etholedig sydd yn cynrychioli eu wardiau ac yn cyfranogi yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor er mwyn goruchwylio perfformiad pob agwedd o waith y Cyngor. Mae un Aelod yn cael ei ddewis gan ei gymheiriaid i gynrychioli pob maes portffolio. Gelwir y rhain yn Aelodau Cabinet, ac ynghyd â'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, Y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddogion, maent yn ffurfio Cabinet y Cyngor.

## Sut ydym yn gwneud penderfyniadau

Mae pob Aelod Cabinet yn cael eu cefnogi gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ac yn achos Gwasanaethau Cymdeithasol hwn yw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Oherwydd y berthynas waith agos rhwng y Portffolio Addysg ac Ieuenctid, mae'r Cyngor hefyd yn cynnal cydgyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Addysg ac Ieuenctid, er mwyn trafod gwasanaethau plant a phobl ifanc sydd yn pontio gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae Arweinydd y Cyngor, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â rhaglen waith y gwasanaethau cymdeithasol drwy Fwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'r Aelod Cabinet hefyd yn mynychu cyfarfodydd Tîm Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi parhau yn rhithiol bob mis.

Mae swyddogion y Cyngor yn cael eu harwain gan y Prif Weithredwr sydd yn cael ei gefnogi gan y Prif Swyddogion sydd yn gyfrifol am bob un maes portffolio. Mae gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl statudol "Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol". Mae trefniadau strwythurol y Cyngor ar gyfer aelodau a swyddogion wedi cael eu nodi yn glir. Mae'r cyfansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut

mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a'r gweithdrefnau a ddilynir er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn effeithlon, tryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae gan y Cyngor hefyd ei lywodraethiant mewnol ei hun drwy system o archwilio mewnol. Mae deilliannau archwiliadau yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a gellir galw ar swyddogion i roi tystiolaeth i'r pwyllgor petai pryderon yn cael eu codi ynghylch eu meysydd gwasanaeth.

## Ein gwaith partneriaeth

Mae gan Sir y Fflint hanes da o weithio mewn partneriaeth, ac yn Adran 4 rydym yn disgrifio rhai o'r gwasanaethau a'r mentrau yr ydym wedi eu datblygu gyda chyrff ac asiantaethau eraill. Wrth galon ein diwylliant cydweithredol mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint. Wedi ei sefydlu yn Ebrill 2016, mae'r corff statudol yma yn cynnwys uwch arweinwyr o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol. Mae'n amcanu at sicrhau bod partneriaid yn y sector statudol a'r trydydd sector yn cydweithio ar reoli blaenoriaethau a rennir drwy gydweithredu, ac mae'r blaenoriaethau yma wedi cael eu nodi yng Nghynllun Llesiant Sir y Fflint 2017-2023.

Hefyd sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2016 ac mae ganddo aelodaeth sydd yn cynrychioli cyrff statudol, partneriaid y trydydd sector, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r gwaith yn gweithio ar wella integreiddiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru sydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau, ac mae wedi bod yn llwyddiannus o ran ei gais am arian newydd gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael er mwyn trawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio yn agos gyda'i gilydd, gyda chyfarfodydd strategol rhwng y prif weithredwyr ac arweinwyr yn cael eu cynnal bob chwe mis. Mae nifer i gyfarfodydd cydweithredol wedi cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys cyfarfod craffu arbennig bob chwe mis pan fo cydweithwyr yn maes iechyd yn cael eu gwahodd i fynychu a derbyn cwestiynau gan aelodau etholedig.

Mae perthnasoedd gyda'r sector gwirfoddol yn parhau i gael ei atgyfnerthu drwy ein cyfranogiad yn y Cytundeb Sector Gwirfoddol. Mae'r berthynas dair ffordd hon rhwng y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r sector gwirfoddol yn hwyluso cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau, ac mae'n galluogi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth yn llawn. Mae'r aelodaeth yn cynnwys y Prif Swyddog a Chadeirydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, aelodau eraill o'r sector gwirfoddol, y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor, ac uwch reolwr o'r Bwrdd Iechyd.



*NEWCIS yn danfon nwyddau i ofalwr*

Adran 6

# Mynediad i Fwy o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol

**Dolenni i Ddeddfwriaeth a Gwybodaeth am Ofal Cymdeithasol:**

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru


Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

**Dolenni i Ddogfennau Strategol Allweddol Cyngor Sir Y Fflint:**

Cynllun y Cyngor 2018-23

Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2018-2023

Sir y Fflint Digidol 2017-2022



## Geirfa

**Profiadau Plentyndod Niweidiol (PPN)** - term a ddefnyddir i ddisgrifio ystod eang o brofiadau sy'n creu straen a thrawma y gall plant gael eu hamlygu iddynt wrth dyfu i fyny. Mae ACE yn amrywio o brofiadau sydd yn niweidio plentyn yn uniongyrchol i rai sydd yn effeithio ar yr amgylchedd y mae plentyn yn tyfu i fyny ynddo.

**Eiriolaeth** - y weithred o siarad ar ran neu er mwyn rhoi cefnogaeth i berson arall.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)** - y sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £1.3 biliwn a gweithlu o dros 17,000 o staff. Mae'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl a gwasanaethau ysbyty acíwt i boblogaeth Gogledd Cymru.

**Plant sy'n Derbyn Gofal** - mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol pan fo llys wedi rhoi gorchymyn gofal i roi plentyn mewn gofal, neu pan fo adran gwasanaethau plant y cyngor wedi gofalu am blentyn am dros 24 awr.

**Mesurau Diogelu rhag Colli Rhyddid** - mae'n darparu fframwaith cyfreithiol sydd yn gwarchod pobl sydd yn byw mewn cartrefi gofal neu ysbytai sydd yn agored i niwed oherwydd anhwylder meddyliol ac sydd heb y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau ynghylch eu hanghenion llety a gofal eu hunain.

**Taliadau Uniongyrchol** - mae'n rhoi arian yn uniongyrchol i ddefnyddwyr er mwyn talu am eu gofal eu hunain, yn hytrach na'r llwybr traddodiadol o Awdurdod Llywodraeth Leol yn darparu gofal iddynt.

**Gofal Ychwanegol** - Tai wedi eu dylunio gydag ystyriaeth wedi ei roi i anghenion defnyddwyr gwasanaeth sydd yn darparu lefelau amrywiol o gymorth sydd ar gael ar y safle ac sydd yn hyrwyddo byw yn annibynnol.

**Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)** - y sefydliad ambarél a chymorth ar gyfer dros 1200 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol seiliedig yn Sir y Fflint.

**HFT** - fe'i gelwid yn flaenorol yn Home Farm Trust. Mae Cyngor Sir Y Fflint wedi comisiynu HFT i ddarparu gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu yn y sir.

**Cronfa Gofal Integredig (CGI)** - cronfa Llywodraeth Cymru sydd yn "amcanu at ysgogi a galluogi gwaith integredig rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Iechyd a'r trydydd sector a'r sector annibynnol.

**Therapi Amlsystemig (TA)** - mae TA yn ymyrraeth glinigol teuluol a chymunedol ddwys ar gyfer plant a phobl ifanc 11-17 oed, pan fo pobl ifanc yn wynebu risg o gael eu lleoli y tu allan i gartref mewn gofal neu gystodaeth.

**Seiliedig ar ddeilliannau** - y diffiniad o ddeilliannau yw effaith neu ganlyniadau terfynol gwasanaethau ar fywyd unigolyn. Felly mae gwasanaethau sydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau yn amcanu at gyflawni'r dyheadau, amcanion a blaenoriaethau a nodir gan ddefnyddwyr gwasanaeth (a gofalwyr) - yn wahanol i wasanaethau y mae eu cynnwys a/neu ffurf yn safonedig neu yn cael eu pennu gan y rhai sydd yn eu darparu yn unig.

**Offer Amddiffyn Personol (OGP)** - OGP yw offer fydd yn amddiffyn y defnyddiwr yn erbyn risgiau iechyd neu diogelwch yn y gwaith.

**Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn** - dull sydd yn symud oddi wrth weithwyr proffesiynol yn penderfynu beth sydd orau i'r claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth, ac sydd yn gosod yr unigolyn yn y canol, fel arbenigwr ar ei brofiad ei hun. Daw'r unigolyn, a'i deulu pan fo'n briodol, yn bartner cyfartal yn y broses o gynllunio eu gofal a chymorth, gan sicrhau bod hynny yn bodloni eu hanghenion, amcanion a deilliannau.

**Seibiant** - cyfnod byr o ofal dros dro er mwyn darparu seibiant neu ryddhad i ofalwyr sydd angen seibiant yn eu rôl.

**Unigolyn Cyfrifol** - rhywun sydd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth mewn sefydliad neu awdurdod lleol.

**Diogelu** - term a ddefnyddir i ddynodi mesurau er mwyn diogelu iechyd, llesiant a hawliau dynol unigolion, sydd yn caniatáu i bobl fyw heb gamdriniaeth, niwed ac esgeulustod.

**Menter Gymdeithasol** - sefydliad sydd yn cymhwyso strategaethau masnachol er mwyn gwneud y mwyaf o welliannau i lesiant pobl a'r amgylchedd - gallai hynny gynnwys gwneud y mwyaf o effaith gymdeithasol ochr yn ochr ag elw i randdeiliaid allanol.

**Gwerth Cymdeithasol** - Mae gwerth cymdeithasol yn edrych y tu hwnt i gost ariannol gwasanaeth ac yn ystyried pa fuddion ychwanegol ehangach ellid eu creu ar gyfer y gymuned. Bydd gweithredu'r Strategaeth Gwerth Cymdeithasol yn elfen allweddol o ddarparu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Gwasanaethau Statudol** - gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol yn arferol, ac enghreifftiau o'r mathau yma o wasanaeth yw gofal yn y cartref a seibiannau.

**Camu i fyny / camu i lawr** - Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi i weithwyr proffesiynol gefnogi unigolyn i gael ei annibyniaeth yn ôl, fel dewis amgen i dderbyn i ysbyty neu ar gyfer rhyddhau o ysbyty. Weithiau fe'i gelwir yn 'ryddhau er mwyn asesu'.

**Trydydd Sector** - rhan o economi neu gymdeithasol sydd yn cynnwys sefydliadau neu gymdeithasau anllywodraethol a di-elw, yn cynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cydweithredol etc.

**Llesiant** - y cyflwr o fod yn gyfforddus, iach neu hapus.

**Cynllun 'Pan Wyf yn Barod'** - Deilliant cyffredinol 'Pan Wyf yn Barod' y bydd gan berson ifanc sydd yn gadael gofal maeth amser a chymorth i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol a'r gwytnwch i bontio'n llwyddiannus i fyw'n annibynnol.

# Atodiad - Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

**6869**
o gysylltiadau wedi eu derbyn ar gyfer Oedolion gan y tîm SPOA

**2989**
o bobl wedi derbyn cyngor a chymorth

**2601**
o asesiadau newydd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn

**42%**
wedi mynd ymlaen i dderbyn cynllun gofal a chymorth er mwyn bodloni eu deilliannau

Mae nifer y cysylltiadau hefyd yn cynnwys pobl a gafodd help gan y gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol

Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn hon roeddem yn helpu
**1136**
o bobl dros 65 oed i fyw yn y cartref a
**501**
bobl hŷn eraill mewn cartrefi gofal

Oedran cyfartalog oedolion sydd yn mynd i gartref gofal preswyl yw
**84**

* Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau yn ddata arbrofol Llywodraeth Cymru a hon yw'r flwyddyn gyflwyno, ac felly nid yw tueddiadau a cymariaethau cenedlaethol ar gael ar gyfer 20/21.

Roedd **86%** o'r bobl oedd â phecyn cymorth wedi cael adolygiad o'u cynllun gofal o fewn eu hamserlen

Cwblhaodd **461** o bobl becyn ailalluogi yn ystod y flwyddyn

Nodwyd **1615** o ofalwyr oedolion ac fe'u cyfeiriwyd at ein gwasanaeth gofalwyr

Comisiynodd **378** o bobl eu gwasanaethau eu hunain drwy daliad uniongyrchol

Derbyniwyd **525** o adroddiadau diogelu y llynedd

Cwblhawyd **98%** o'r rhai a aeth ymlaen i ymholiadau Adran 126 o fewn 7 diwrnod

**331** o achosion yn aros i gael eu dyrannu ar gyfer asesiad Mesurau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn Sir y Fflint

# Atodiad - Gwasanaethau plant

**11571** Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, derbyniodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol 11571 o gysylltiadau

Darparwyd **4348** o'r cysylltiadau hynny gyda chyngor neu gymorth

**1257** Cyfanswm y teuluoedd a dderbyniodd wybodaeth a chymorth drwy'r Canolbwynt Cymorth Cynnar

**794**
o asesiadau newydd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn

**56%**
wedi mynd ymlaen i dderbyn cynllun gofal a chymorth

Roedd gan
**23%**
anghenion y gellid eu bodoli drwy ddulliau eraill

Roedd gan
**21%**
anghenion anghymwys

Roedd yna **137** o blant ar Gofrestr Amddiffyn Plant Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2021. Cynhaliwyd 95% o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a 99% o gynadleddau adolygu o fewn yr amserlenni. Cafodd 9% o'r plant ar y gofrestr eu hail-gofrestru o fewn 12 mis o ddadgofrestru (18 o blant o 6 theulu) a'r amser cyfartalog yr oedd plant yn aros ar y Gofrestr oedd 270 diwrnod.

Ar 31 Mawrth 2021 roedd yna
**113**
a blant â chynllun gofal a chymorth pan fo anghenion yn cael eu bodloni drwy daliad uniongyrchol.

Mae **181** o blant/pobl ifanc yn cael eu cefnogi drwy wasanaethau cyrion gofal, 77 o bobl ifanc hyd at 25 oed sydd wedi gadael gofal.

Roedd
**256**
o blant yn derbyn gofal yn Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2021. Mae gennym gronfa o ofalwyr ymrwymedig a brwdfrydig, gyda 71 o ofalwyr maeth (yn cynnwys gofalwyr sydd yn berthnasau), yn cynnig 111 o leoliadau. Ar hyn o bryd mae 93 o leoliadau yn weithredol. Pan na all yr angen gael ei fodloni yn fewnol, mae plant yn cael eu gosod gyda gofalwyr asiantaeth neu mewn gofal preswyl. 9.4% o blant wedi eu symud fwy na dwywaith yn ystod y flwyddyn, er bod rhai o'r symudiadau yma wedi eu cynllunio fel rhan o'u pecyn gofal.

Nodwyd
**174**
o ofalwyr ifanc eleni ac fe'u cyfeiriwyd at ein darparwyr gwasanaeth gofalwyr ifanc

Roedd yna
**133**
o blant y cynigiwyd eiriolaeth iddynt